

Cymru a'r Undeb Ewropeaidd

Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014 a Rhaglen Waith ar gyfer 2015

Cyflwyniad

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr UE, Cymru a'r Undeb Ewropeaidd (2012), yn cynnwys ymrwymiad i gynhyrchu Adroddiad Blynyddol ar weithgareddau a chynnydd, ynghyd â Rhaglen Waith flynyddol, ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae'n adrodd ar yr ymrwymadau unigol a roddwyd dan amcanion amrywiol y Strategaeth ac yn nodi dull Llywodraeth Cymru o ymgysylltu â'r Undeb Ewropeaidd. Mae Cymru a'r Undeb Ewropeaidd yn dangos sut y mae nodau'r UE, a ddisgrifir yn ei strategaeth ei hun, sef Ewrop 2020, yn ategu ein Rhaglen Lywodraethu ni ac mae'n nodi cyfres o amcanion ar gyfer Llywodraeth Cymru o ran ei chysylltiadau â'r UE, o ran meysydd polisi ac o ran hybu ymgysylltu. Mae hefyd yn nodi sut yr ydym yn ceisio dylanwadu ar waith llunio polisiâu'r UE.

Mae'r UE yn cael effaith fawr ar fywydau pobl yng Nghymru ac yn chwarae rhan bwysig yn ffyniant ein cenedl. Mae'r Farchnad Sengl Ewropeaidd wedi cael effaith aruthrol ar ffyniant tymor hir yn Ewrop. Yr Undeb Ewropeaidd yw ein partner masnachu mwyaf o hyd, gyda marchnad o ryw 500 miliwn o bobl ynddi, economi fwyaf y byd o ran GDP. Yn ogystal â bod yn bwysig tu hwnt i fusnesau Cymru, mae mynediad at y Farchnad Sengl yn rhan hanfodol o apêl Cymru i fuddsoddwyr tramor.

Mae'r Adroddiad hwn yn disgrifio cyfres o gyflawniadau ymarferol ar draws ystod o weithgareddau gan Lywodraeth Cymru sy'n cael effaith bendant ar ein hansawdd bywyd. Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddi dros £1.9bn o Gronfeydd Strwythurol yr UE mewn 290 o brosiectau, sy'n cynrychioli cyfanswm buddsoddiad o £3.7bn (gan gynnwys cyllid cyfatebol) mewn prosiectau ledled Cymru, yn gronnu hyd at ddiwedd 2014 ar gyfer rhaglenni 2007-2013. Mae'r buddsoddiad hwn wedi helpu prosiectau'r UE i ddwyn manteision pwysig i bobl, busnesau, yr amgylchedd, a chymunedau yn ystod 2014, gan helpu rhyw 190,800 o bobl i ennill cymwysterau a thros 62,800 i gael gwaith, a chreu rhyw 30,600 o swyddi a thros 10,400 o fentrau. Tuag at ddiwedd 2014, Cymru oedd y genedl gyntaf yn y DU, ac un o'r rhai cyntaf yn yr UE, i gael cymeradwyaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd i'w rhaglenni gwerth £2 biliwn dan y Cronfeydd Strwythurol ar gyfer 2014-2020. Ym maes amaethyddiaeth, mae Cymru wedi cynnal ei chyfran o gyllid y Polisi Amaethyddol Cyffredin o ganlyniad i ymgysylltiad cryf â'r broses o ddiwygio'r PAC, gyda thaliadau cymhorthdal incwm hollbwysig yn cael eu darparu ar gyfer 16,000 o fusnesau fferm ledled Cymru.

Mae ymgysylltu'n effeithiol â'r UE yn bwysig i Gymru. Roedd Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn 2014 ar Rôl Cymru yn y Broses o Wneud Penderfyniadau yn yr UE yn cyflwyno barn gadarnhaol ar y cyfan am y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn canlyn buddiannau Cymru yn yr UE. Roedd hefyd yn cydnabod rôl Cyd-bwyllgor Gweinidogion Ewrop o ran galluogi Gweinidogion y Gweinyddiaethau Datganoledig a Llywodraeth y DU i gyfnewid barn am faterion yr

UE ac i gynnal dull cydgysylltiedig ac effeithiolrwydd Swyddfa'r UE ym Mrwsel. Mae ein haelodaeth o'r UE, a'n cyfranogiad yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu ei bolisiau a'i raglenni, yn gwneud cyfraniad mawr at gyrraedd y nodau yn ein Rhaglen Lywodraethu.

Mawrth 2015

Amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer ei chydberthnasau â'r UE

Hyrwyddo a diogelu buddiannau Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru yn nodi'r cynigion hynny gan yr UE sydd o bwys i Gymru ac yn gweithio i hyrwyddo a diogelu ein buddiannau.

Mae hon yn rhwymedigaeth gyffredinol a gyflawnwyd fel y nodir yn yr ymrwymïadau unigol isod.

Y Farchnad Sengl: Masnach a Buddsoddi

Mae ysgogi allforion a denu mewnfuddsoddiad yn ganolog i'n strategaeth ar gyfer twf ac adnewyddu'r economi. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi'r Farchnad Sengl a bydd yn gweithio gydag eraill i sicrhau chwarae teg ac amgylchedd busnes dynamig ledled yr UE.

Adroddiad Blynyddol 2014

Mae gwledydd Ewropeaidd eraill yn dal i fod yn ffynhonnell gyfoethog a chyson ar gyfer mewnfuddsoddiadau yng Nghymru, boed gan gwmnïau sy'n newydd i Gymru neu gwmnïau sy'n ail-fuddsoddi yma. Dangoswyd tystiolaeth o hyn gyda nifer cynyddol o brosiectau'n cael eu cofnodi o wledydd yr UE. Yn ystod 2013/14 sicrhodd Cymru 26 o brosiectau a arweiniodd yn uniongyrchol at greu a diogelu 7,500 o swyddi gan gwmnïau a oedd â'u pencadlys ar brif gyfandir Ewrop. Cyflawnwyd hyn trwy gydweithio agos rhwng y tîm masnach a buddsoddi sydd wedi'i leoli yn Swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel a'r timau sector sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Yn yr un modd mae'r farchnad Ewropeaidd yn dal i fod yn flaenoriaeth i Masnach a Buddsoddi y DU (UKTI). Adlewyrchir hyn gan nifer cynyddol y prosiectau i'r DU a sicrhawyd o farchnadoedd allweddol Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal a Sbaen, a'r rheiny'n cwmparu amrywiaeth o sectorau gan gynnwys gwyddorau bywyd, y diwydiannau creadigol, bwyd, gweithgynhyrchu uwch ac ynni. Mae Llywodraeth Cymru yn dal i feithrin perthnasoedd cryf â thimau UKTI ledled y cyfandir ac mae wedi gweithio mewn partneriaeth ar sawl achlysur o ran targedu cwmnïau a phresenoldeb mewn digwyddiadau. Mae hyn wedi cynnwys digwyddiadau a chyfarfodydd yn Rhufain, Madrid, Barcelona, Berlin, Düsseldorf, Napoli (Naples), Paris, Toulouse, Amsterdam, Lyon, Lwcsembwrg, Stockholm a Warsaw. Trwy weithio gydag UKTI mae gwybodaeth yn y farchnad yn cael ei rhannu o ran buddsoddwyr tramor presennol yn ogystal â chymorth i gwmnïau yng Nghymru sydd â'u byrd ar allforio.

Mae deunydd yr ymgyrch Just Ask wedi cael ei gyfieithu i Eidaleg, Almaeneg, Ffrangeg, Sbaeneg a Chatalan hyd yma ac mae wedi cael ei ledaenu'n eang i gyfryngwyr a rhanddeiliaid yn y farchnad. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i'r gwledydd a'r rhanbarthau hyn yn Ewrop ac mae wedi profi'n eithriadol o boblogaidd, gydag ieithoedd ychwanegol dan ystyriaeth yn awr.

Mae nifer o ddigwyddiadau wedi cael eu cefnogi gan gynnwys derbyniadau mewn sawl lleoliad y mae Gweinidogion wedi bod yn bresennol ynddynt i atgyfnerthu ein hymrwymiad i fuddsoddwyr presennol. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys derbyniad ar Ddydd Gŵyl Dewi yn Barcelona lle cyfarfu Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth â buddsoddwr presennol pwysig a chyfarfod tebyg yn Napoli lle ailddatganodd buddsoddwr pwysig ei ymrwymiad i Gymru.

Bu swyddogion yn bresennol mewn nifer o sioeau masnach ar draws ystod o sectorau. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiadau ar ddata mawr, technoleg bwyd, ynni niwclear a'r diwydiant awyrofod. O ganlyniad i'r gweithgarwch hwn, mae'r hyn sydd gan Gymru i'w gynnig i fuddsoddwyr wedi cael ei rannu gyda thros bum cant o gwmnïau ac mae ymweliadau o'r tu allan wedi digwydd o ganlyniad.

Mae cyflwyniadau ar gryfder yr arlwy Gymreig wedi cael eu rhoi i'r timau buddsoddi yn UKTI yn y mwyafrif o farchnadoedd yr UE. Mae'r berthynas yn arwain yn awr at ymgysylltu'n gynharach â chwmnïau sy'n ystyried buddsoddi yn y DU, gan arwain yn uniongyrchol at lif gwell o ymholiadau ynghylch buddsoddiadau ar gyfer Cymru. Cyflawnwyd hyn trwy rannu enghreifftiau a chynnig astudiaethau achos manwl i dimau UKTI, gan roi'r hyder iddynt hyrwyddo Cymru fel lleoliad delfrydol.

Mae perthnasoedd cryf yn dal i gael eu meithrin â lluosyddion allweddol yn y farchnad megis siambrau masnach, er enghraifft Siambrau Ffrengig-Brydeinig ym Mharis a Toulouse. Mae'r ymgysylltu hwn wedi arwain at ymweliadau â Chymru gan nifer o gwmnïau o'r tu allan i ganlyn arni ag ymholiadau ynghylch ehangu i'r DU. Mae mwy o waith yn cael ei wneud i hysbysu cwmnïau ynghylch datblygiadau allweddol yng Nghymru. Mae enghreifftiau'n cynnwys y datblygiadau o ran cyllido yn y sector Gwyddorau Bywyd a gweithgareddau ymchwil yn ein prifysgolion.

Dangoswyd ein cefnogaeth i allforion i'r Farchnad Sengl pan roddwyd lle blaenllaw i Aelod-wladwriaethau'r UE yn y digwyddiad Explore Export a gynhaliwyd gennym yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd. Fe gynhalion ni seminarau a gweithdai hefyd i roi gwybodaeth a chynghor i gwmnïau ynghylch masnachu yn y Farchnad Sengl. Mae llawer o'r cwmnïau hyn wedi cofrestru ar gyfer y rhaglen Cyfleoedd Masnach Ryngwladol.

Ar y cyd â'r pecynnau cymorth wedi'u teilwra a ddarperir gan ymgynghorwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru fe gynigiodd tîm Brwsel gymorth yn y farchnad trwy gyflwyniadau i ddosbarthwyr a chwsmeriaid posibl a thrwy rwydwaith ehangach UKTI o arbenigwyr sector.

Ar yr ochr bolisi, fe ymatebodd y Llywodraeth hefyd i ymgynghoriad cyhoeddus y Comisiwn Ewropeaidd ar ddiwygio'r Ddeddf Busnesau Bach, sef yr enw a roddir i bolisiau'r UE sy'n cefnogi BBaChau ac entrepreneuriaid.

Rhaglen Waith 2015

Gan adeiladu ar lwyddiant gwaith masnach a buddsoddi yn 2014/15 bwriedir cynnal mwy o weithgareddau yn y farchnad yn 15/16. Bydd y rhain yn golygu parhau i ddatblygu perthnasoedd â lluosyddion allweddol megis UKTI a siambrau masnach. Un enghraifft o'r fath yw'r cyfle i'r tîm fod yn bresennol a rhoi cyflwyniad yng nghynhadledd flynyddol rhwydwaith UKTI yn yr Almaen. Dyma'r tro cyntaf i Gymru gael gwahoddiad ac mae'n cynnig y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i swyddogion buddsoddi am gryfderau sectorau allweddol yng Nghymru.

Rydym wedi ymrwymo i gymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau masnach yn 2015, gan ganolbwyntio eto ar ein sectorau allweddol, megis Sioe Awyr Paris ar gyfer ein sector awyrofod ac Anuga FoodTec yng Nghwlen i amlygu'r gwaith a wneir o fewn y sector bwyd yng Nghymru. Rydym wedi cael nifer o geisiadau gan UKTI i gyfrannu i ddigwyddiadau ac rydym yn brysur yn trefnu nifer o ymweliadau o'r tu allan. Er enghraifft mae timau Sgandinafaidd UKTI yn ymweld â Chymru i ymgysylltu â buddsoddwyr presennol a, gyda'n cymorth ni, i helpu'r cwmnïau hyn i dyfu.

Mae ein rhwydwaith Ewropeaidd bellach yn cynnwys nid dim ond UKTI ond cymdeithasau masnach Ewropeaidd hefyd megis clystyrau diwydiannol a chymdeithasau academiaidd. Mae enghreifftiau'n cynnwys partneru â chymdeithasau megis clwstwr gwyddorau bywyd Madrid i hyrwyddo Canolfan Gwyddorau Bywyd Cymru a chadwyn gyflenwi Airbus gyda sector awyrofod yr Eidal.

Rydym yn ymrwymedig i ddefnyddio digwyddiadau fel mecanwaith i hyrwyddo Cymru a chyfleoedd busnes. Rydym yn cydweithio'n agos gyda nifer o bartneriaid yng Nghymru i hyrwyddo masnach ac ym mis Mawrth eleni roeddem yn falch o gydweithio gydag Undeb Rygbi Cymru a Hybu Cig Cymru i hyrwyddo cig oen Cymru yn yr Eidal. Fe wnaeth dros 20 o gwsmeriaid allweddol, ynghyd â'u cadwynau cyflenwi, fwynhau cig oen Cymru a rhoi ymrwymiad i gyflwyno archebion yn y dyfodol i gefnogi ein diwydiant. Byddwn yn parhau i roi cymorth i'n hallforwyr, yn y farchnad a thrwy'r pecynnau a gynigir gan y timau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Mae cynlluniau cynnar yn cael eu datblygu ar gyfer digwyddiadau sy'n canolbwyntio ar sectorau penodol ym Mharis a Madrid, y bydd UKTI yn lleol yn eu cefnogi trwy weithgareddau cyflwyno cwmnïau. Bydd y tîm yn parhau i adnabod cyfleoedd yn y farchnad ar gyfer ymwneud gan Weinidogion, sydd wedi esgor ar ymholiadau ar gyfer llif o fewnfuddsoddiadau arfaethedig.

Strategaeth Ewrop 2020: Swyddi a Thwf

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gymryd rhan yn Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU, gan adrodd i'r Comisiwn Ewropeaidd ar ein cynnydd a'n polisïau ar gyfer creu amodau twf. Fel hyn, byddwn yn parhau i gyfrannu at y weledigaeth ehangach ar gyfer ffyniant yn Ewrop hyd at 2020.

Adroddiad Blynyddol 2014

Yn 2014, bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos gyda'r Trysorlys ac adrannau perthnasol eraill yn Whitehall er mwyn sicrhau bod Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU yn 2014 yn cynnwys camau gweithredu a mentrau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â heriau diwygio strwythurol mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi'i ddatganoli.

Mae'r holl Aelod-wladwriaethau yn cyflwyno Rhaglenni sy'n amlinellu eu cynlluniau diwygio i hybu twf a chyflogaeth. Gwneir hyn bob blwyddyn fel rhan o Strategaeth Ewrop 2020 yr UE ar gyfer twf deallus, cynaliadwy a chynhwysol. Roedd Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU yn 2014 yn cynnwys camau gweithredu i fynd i'r afael â phum prif darged y strategaeth ar y canlynol: Cyflogaeth; Addysg; Lleihau Allgáu Cymdeithasol a Thlodi; Ymchwil a Datblygu ac Arloesi; Y Newid yn yr Hinsawdd ac Ynni.

Hefyd, ym mis Hydref 2014, fe ymatebodd Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad cyhoeddus y Comisiwn Ewropeaidd ar yr adolygiad canol tymor o strategaeth Ewrop 2020. Roedd yr ymateb yn pwysleisio ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barhau i gyflawni rôl gadarnhaol a rhagweithiol yn yr UE er mwyn cynyddu i'r eithaf y manteision eglur y mae aelodaeth o'r UE yn eu dwyn i ddinasyddion, busnesau a chymunedau ledled Cymru.

Roedd ymateb Llywodraeth Cymru hefyd yn datgan ein cefnogaeth lawn i ffocws parhaus y Comisiwn ar dwf a swyddi fel blaenoriaeth, gan amlygu'r ffaith bod llawer o nodau ac amcanion Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn adlewyrchu'r flaenoriaeth hon. Gwnaeth Llywodraeth Cymru argymhellion i'r Comisiwn eu hystyried:

- Sicrhau yr ymlynir wrth egwyddorion sybsidiaredd a chyfrannedd a bod y rhanbarthau'n parhau i gyflawni rôl bwysig yn y gwaith o gyflawni strategaeth Ewrop 2020.
- Gwarantu bod y strategaeth yn cadw ffocws cytbwys ar ailadeiladu twf economaidd, cynyddu lefelau cyflogaeth a sicrhau mwy o gydlyniant cymdeithasol gyda lefelau is o dlodi.
- Parhau â'r polisi o ganolbwyntio cymorth o Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi yr UE ar gyflawni amcanion Ewrop 2020.
- Gwneud defnydd mwy effeithiol o broses y Semester Ewropeaidd, trwy'r Rhaglenni Diwygio Cenedlaethol ac Argymhellion Gwlad-Benodol, fel bod enghreifftiau o arfer gorau o ran gweithredu diwygiadau strwythurol, ar lefelau Aelod-wladwriaethau a rhanbarthol, yn cael eu lledaenu, ac yn cael eu mabwysiadu o bosibl, ar draws yr UE.
- Darparu mwy o eglurder ynghylch y newid i'r targed ar gyfer 2050 i leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr ar y cyfan i lefelau sydd 80% yn is na lefelau 1990.
- Parhau â'r gwaith ar ddiwygio rheoleiddio, yn enwedig lle mae'n berthnasol i fusnesau bach a chanolig, ar yr amod nad yw hyn yn cael effaith negyddol ar hawliau gweithwyr, yn enwedig mewn perthynas â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.
- Sicrhau bod y Farchnad Sengl yn cael ei chwblhau.

Rhaglen Waith 2015

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu'n gynnar â'r Trysorlys ac adrannau perthnasol eraill yn Whitehall er mwyn sicrhau bod polisiâu, mentrau a chamau gweithredu Llywodraeth Cymru yn cael eu cynnwys yn Rhaglen Ddiwygio Genedlaethol y DU yn 2015 ac yn cyfrannu at y targedau yn strategaeth Ewrop 2020.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn edrych ymlaen at ganlyniad yr adolygiad canol tymor o strategaeth Ewrop 2020 a bydd yn ymgysylltu â'r sefydliadau Ewropeaidd ynghylch y pecyn o fesurau a gyhoeddwyd yn rhaglen waith y Comisiwn ar gyfer 2015 i gryfhau'r Farchnad Sengl a'r Strategaeth Marchnad Sengl Ddigidol. Mae'r Llywodraeth yn ymrwymedig i gymdeithas ac economi fwy doeth, sy'n fwy cysylltiedig a bydd yn rhoi sylw arbennig i'r meysydd yn y cynnig ar gyfer Marchnad Sengl Ddigidol sy'n amcanu at greu economi a chymdeithas ddigidol, trwy fesurau megis e-wasanaethau, cynhwysiant digidol a photensial data mawr a chyfrifiadura cwmwl.

Cyllideb yr UE ar gyfer 2014-2020

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gael y canlyniad gorau i Gymru o Gyllideb yr UE ar gyfer 2014-2020 a byddwn yn gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd i wneud hyn. Rydym hefyd yn ymrwymedig i sicrhau bod rhaglenni'r UE yn cael yr effaith fwyaf bosibl a byddwn yn sicrhau bod y rhaglenni hyn wedi'u seilio ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio ac yn canolbwyntio ar ddarparu a chyflawni canlyniadau i bobl, cymunedau a busnesau yng Nghymru.

Adroddiad Blynyddol 2014

Yn dilyn mabwysiadu'r Fframwaith Ariannol Amlflwydd ar gyfer 2014-2020 tuag at ddiwedd 2013, newidiodd ffocws gwaith i gytuno a gweithredu rhaglenni cyllido'r UE dan y Fframwaith Ariannol Amlflwydd ar y cyfan, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi, y Polisi Amaethyddol Cyffredin a'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, Horizon 2020 a Chyfleuster Cysylltu Ewrop, a amlinellir yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Rhaglen Waith 2015

Un o fentrau mwyaf uchelgeisiol y Comisiwn newydd yw Cynllun Buddsoddi Ewrop y Llywydd Juncker. Nod y Cynllun yw mynd i'r afael ag argyfwng tanfuddsoddi Ewrop trwy ysgogi buddsoddiad ychwanegol, gan y sector preifat yn bennaf, dros y tair i bedair blynedd nesaf.

Mae'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yn archwilio'r cyfleoedd a gynigir gan y Gronfa Ewropeaidd arfaethedig ar gyfer Buddsoddiadau Strategol (EFSI) y mae hi wedi ei thrafod gyda'r swyddog arweiniol o Swyddfa Breifat Is-lywydd y Comisiwn Jyrki Katainen (Swyddi, Twf, Buddsoddi a Chystadleurwydd). Mae swyddogion hefyd yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth y DU, y Gweinyddiaethau Datganoledig eraill, Cynrychiolaeth y DU i'r UE a sefydliadau perthnasol yr UE. Hyd yma mae gan Lywodraeth Cymru ddeg prosiect yn y llif dangosol o brosiectau arfaethedig ar gyfer y DU, sy'n elfen arall o'r Cynllun.

Mae'r Cynllun Buddsoddi yn rhan o agenda ehangach ar gyfer twf a bydd yn cael ei ategu gan nifer o ddiwygiadau sy'n gwella twf ym meysydd rheoleiddio gwell, Undeb Marchnadoedd Cyfalaf a dileu rhwystrau i'r Farchnad Sengl.

Cyflwynodd y Comisiwn y ddeddfwriaeth berthnasol ym mis Ionawr 2015. Disgwylir y bydd Llywyddiaeth Latfiaidd yr UE yn broceru cytundeb ar y ddeddfwriaeth erbyn mis Mehefin 2015, gan gynnwys sefydlu'r Gronfa Ewropeaidd ar gyfer Buddsoddiadau Strategol a ddylai, os caiff ei mabwysiadu, fod yn weithredol yn ail hanner 2015.

Y Cronfeydd Strwythurol: Datblygu Economaidd Rhanbarthol

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod y Cronfeydd Strwythurol a ddyrennir i Gymru yn cael yr effaith fwyaf buddiol bosibl. Byddwn yn cefnogi prosiectau mwy strategol, ond llai ohonynt, ac rydym yn bwriadu canolbwyntio ar sicrhau swyddi a thwf cynaliadwy.

Adroddiad Blynyddol 2014

Hyd at 31 Rhagfyr 2014, roedd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) wedi buddsoddi dros £1.9m o Gronfeydd Strwythurol yr UE mewn 290 o brosiectau, sy'n cynrychioli cyfanswm buddsoddiad o £3.7bn (gan gynnwys cyllid cyfatebol) mewn prosiectau ledled Cymru dan Raglenni 2007-2013.

Fe wnaeth y buddsoddiad hwn alluogi prosiectau a gyllidir gan yr UE i helpu 189,400 o gyfranogwyr i ennill cymwysterau, helpu 61,300 i gael gwaith a helpu 46,100 o bobl i fanteisio ar ddysgu pellach. At hynny, mae rhyw 30,400 o swyddi (gros) a thros 10,400 o fentrau wedi cael eu creu. Hefyd, llwyddodd WEFO i gyrraedd ei holl dargedau gwariant blynyddol ym mhob un o'r pedair rhaglen y cytunwyd arnynt gyda'r Comisiwn Ewropeaidd. Y prif nod o hyd oedd sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl trwy'r buddsoddiad hwn wrth inni symud tuag at ddirwyn y rhaglenni hyn i ben yn 2015. Mae monitro gwariant a chynnydd yn ofalus yn hanfodol er mwyn cynyddu gwerth ac effaith y cronfeydd hyn i'r eithaf er budd Cymru. Mae hefyd yn bwysig gwerthuso effaith y Rhaglenni mewn ffordd gadarn ac mae nifer o werthusiadau ar lefelau prosiectau a rhaglenni yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd a bydd y rhain o gymorth inni benderfynu beth sydd wedi gweithio'n dda fel bod buddsoddiadau yn y dyfodol yn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl er budd pobl, busnesau a chymunedau ledled Cymru.

Cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig hefyd tuag at ddiwedd 2014 pan roddodd y Comisiwn Ewropeaidd gymeradwyaeth i'r cylch nesaf o raglenni'r Cronfeydd Strwythurol ar gyfer Cymru a fydd yn werth tua £2 biliwn o arian yr UE rhwng 2014 a 2020.

Cyflawnwyd y cam arwyddocaol hwn o ganlyniad i drafodaethau cynnar a chadarnhaol gyda'r Comisiwn Ewropeaidd. Roedd yn golygu mai Cymru oedd y genedl gyntaf yn y DU, ac un o'r rhai cyntaf yn Ewrop, i gael cytundeb ar gyfer ei rhaglenni. Yn fuan wedi hyn, ym mis Rhagfyr, cymeradwywyd y prosiect cyntaf sy'n werth £20 miliwn o arian yr UE ar gyfer Campws Arloesi a Menter £35m Prifysgol Aberystwyth.

Mae ein blaenoriaethau buddsoddi newydd yn gyson â chyfeiriad strategol ein Rhaglen Lywodraethu. Maent yn cynnwys ffocws cryf ar ganolbwyntio a blaenoriaethu'r adnoddau sydd ar gael yn fwy, er mwyn helpu i drawsnewid twf economaidd a chreu swyddi. Maent hefyd yn cynnwys ffocws ar strategaethau allweddol gan gynnwys ein strategaeth Gwyddoniaeth i Gymru, ein Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, Ewrop 2020 a'r Rheoliadau ar y Cronfeydd Strwythurol ar gyfer 2014-2020.

Ein blaenoriaethau buddsoddi ar gyfer arian yr UE yng Nghymru yw: Ymchwil ac Arloesi; Cystadleurwydd BBaChau; Ynni Adnewyddadwy ac Effeithlonrwydd Ynni;

Cysylltedd a Datblygu Trefol; Trechu Tlodi trwy Gyflogaeth Gynaliadwy; Sgiliau ar gyfer Twf a Chyflogaeth a Chyrhaeddiad Ieuenctid.

Cynhaliwyd digwyddiadau lansio ar gyfer rhaglenni 2014-2020 yng Ngogledd a De Cymru ym mis Tachwedd. Fe'u cynhaliwyd yn dilyn nifer o ddigwyddiadau a gweithdai eraill ledled Cymru ar y trefniadau gweithredu ar gyfer rhanddeiliaid a darpar noddwyr i'w helpu gyda'r gwaith o gynllunio a datblygu prosiectau dan raglenni'r UE yn barod erbyn y byddai'r rhaglenni newydd yn cael eu cymeradwyo.

Rhaglen Waith 2015

Byddwn yn parhau i gydweithio â phartneriaid a darpar noddwyr yn ystod 2015 i sicrhau bod y prosiectau gorau'n cael eu cyflwyno a'u bod yn cael blaenoriaeth o ran cael cymorth o gronfeydd yr UE. Bydd y Fframwaith Blaenoriaethau Economaidd, sy'n ategu'r Rhaglenni Gweithredol, o gymorth i greu portffolio cyffredinol o brosiectau a ariennir gan yr UE - prosiectau meingefn a phrosiectau ategol - a fydd yn gallu mynd i'r afael â chyfleoedd strategol ac economaidd newydd a sicrhau bod cronfeydd yr UE yn cael yr effaith fwyaf bosibl.

Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i weithredu Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd (CTE) Iwerddon-Cymru ar gyfer 2014-2020 sy'n werth €100m ac y bydd WEFO yn gweithredu fel yr Awdurdod Rheoli ar ei chyfer. Cafodd y Rhaglen drawsffiniol hon ei chymeradwyo ym mis Chwefror 2015 a bydd yn gyfle i sefydliadau yng Nghymru ac Iwerddon weithio mewn partneriaeth ym meysydd arloesi, ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd, diwylliant, treftadaeth a thwristiaeth. Cynhaliwyd digwyddiad lansio ffurfiol ar gyfer y rhaglen yn Abertawe ar 26 Mawrth.

Bydd WEFO yn parhau i ddatblygu ei pherthnasoedd gyda rhanbarthau'r UE ac o fewn y DU i lywio a dylanwadu ar ddatblygiad rhaglenni trawswladol a rhyngranbarthol y mae Cymru'n gallu cyfranogi ynddynt. Ar y cyd â rhaglen Cymru/Iwerddon, mae rhaglenni Ardal yr Iwerydd, Gogledd-Orllewin Ewrop, INTERREG Ewrop, URBACT, ESPON ac INTERACT ar gyfer 2014-2020 yn werth €1.55b ar draws y rhanbarthau yn yr UE sy'n cyfranogi. Bydd WEFO yn diweddarau Strategaeth CTE ar gyfer Cymru yn 2015 a fydd yn darparu fframwaith ar gyfer cydweithio'n agos gyda rhanddeiliaid, gan adeiladu ar y llwyddiant hyd yma a chan gynyddu i'r eithaf yr ymgysylltu â CTE yng Nghymru.

Mae synergeddau rhwng y Cronfeydd Strwythurol a rhaglenni cyllido eraill gan yr UE a reolir yn uniongyrchol gan y Comisiwn, megis Horizon 2020 ac Erasmus+, yn bwysig hefyd a byddwn yn parhau i gefnogi gwaith panel bach o Lysgenhadon Cyllid yr UE i helpu i hyrwyddo a chynyddu i'r eithaf y cyfleoedd a gynigir gan raglenni cyllido'r UE a reolir yn uniongyrchol..

Y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)

Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod cronfeydd PAC yn cael y budd mwyaf yng Nghymru. Rydym am weld buddsoddiad yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu busnesau ffermio a gwledig proffidiol a chynaliadwy, creu cymunedau gwledig cryf a gwella gwaith rheoli amgylcheddol yn ein cefn gwlad.

Adroddiad Blynyddol 2014

Mae Cymru wedi cynnal ei chyfran o arian PAC o ganlyniad i ymgysylltiad cryf â'r broses o ddiwygio'r PAC, a arweiniodd at gytundeb gwleidyddol ynglŷn â'r fframwaith rheoleiddio ym mis Mehefin 2013 a chanlyniad da o negodiadau mewnol y DU ar y gyllideb. Cafodd cynigion polisi eu datblygu ac ymgynghorwyd arnynt, gyda lefel uchel o ymgysylltiad cyhoeddus. Cafodd penderfyniadau eu cyfleu i'r Comisiwn yn haf 2014 a phasiwyd deddfwriaeth ddomestig gefnogol.

Ym mis Rhagfyr 2014 yn sgîl canlyniad adolygiad barnwrol a oedd yn herio'r diffiniad o'r rhanbarthau talu ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru ailddechrau gwaith ar yr agwedd hon ar Golofn 1 (h.y. y mecanwaith ar gyfer gwneud taliadau'n uniongyrchol i ffermwyr fel cymhorthdal incwm). Mae'r Comisiwn wedi cael ei hysbysu a byddwn yn ymgynghori ynghylch cynigion newydd yn ystod gwanwyn 2015.

Mae Cynllun Datblygu Gwledig 2007-2013 yn dal i ddarparu amrywiaeth eang o gymorth ar gyfer sectorau diwydiannau'r tir yn yr economi wledig, busnesau bwyd-amaeth a'r gymuned wledig ehangach. Cafodd y targed blynyddol a oedd yn amodi bod yn rhaid i arian a ddyrennir o gyllideb yr UE gael ei wario o fewn dwy flynedd i'w ddyrannu (sef "N+2" fel y'i gelwir) ei gyrraedd ar gyfer 2014.

Dan y rheolau N+2 bydd y rhaglen yn parhau i gyflawni a gwario tan 31 Rhagfyr 2015. Gan fod y broses o gymeradwyo rheoliadau'r UE ar gyfer cyfnod yr olynydd-raglen wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl, mae rheolau pontio'r Comisiwn yn caniatáu i ymrwymadau newydd ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig 2007-2013 gael eu gwneud yn 2014 a 2015 er mwyn cysondeb ac er mwyn sicrhau pontio esmwyth rhwng y Cynllun Datblygu Gwledig presennol a'r olynydd-raglen.

Mae adolygiad yn mynd rhagddo o gyfanswm y swyddi (gros) a grëwyd, a chadarnhawyd rhyw 1,360 ohonynt. Rhoddwyd cymorth i ychydig dros 190 o fentrau a darparwyd ychydig dros 62,600 o ddiwrnodau hyfforddi, gan olygu bod 22,100 o gyfranogwyr wedi cwblhau gweithgaredd hyfforddi'n llwyddiannus.

Wrth ddatblygu'r Rhaglen Datblygu Gwledig ar gyfer 2014-2020 lansiodd y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ymgynghoriad ym mis Chwefror 2014. Gwnaed gwaith pellach o ran datblygu polisi pan gyhoeddwyd manylion rheoliadau gweithredu a deddfau dirprwyedig yr UE. O fis Ionawr 2014 fe ymgynghorodd y Gweinidog hefyd ynghylch cynigion ar gyfer prif gynllun amaeth-amgylcheddol Llywodraeth Cymru, Glastir. Fe wnaeth canlyniadau'r ymgynghoriadau hyn lywio datblygiad y Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 a gyflwynwyd i'r Comisiwn Ewropeaidd ym mis Gorffennaf 2014. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod gyda'r Comisiwn Ewropeaidd dros fisoedd y gaeaf o 2014 ac i mewn i 2015 ac mae cymeradwyaeth i'r Rhaglen Datblygu Gwledig o fewn golwg. Rydym yn gobeithio cael cymeradwyaeth mewn egwyddor yn gynnar yn 2015, gyda chymeradwyaeth ffurfiol yn dilyn yn yr haf.

Gwnaed cynnydd sylweddol o ran datblygu'r darpar gynlluniau a fydd yn darparu'r Rhaglen Datblygu Gwledig ar gyfer rhanddeiliaid ac o ran dylunio'r prosesau gweinyddol angenrheidiol i redeg y cynlluniau. Mae Grantiau Effeithlonrwydd Glastir yn darparu taliadau wedi'u hariannu'n rhannol i ffermwyr wneud buddsoddiadau

cyfalaf i ddwyn gwelliannau ar y fferm mewn peirianwaith a seilwaith. Hyd at ddiwedd 2014, mae 297 o gcontractau sy'n werth £7.62m wedi'u sefydlu i fynd i'r afael ag effeithlonrwydd ynni, dŵr a gwrtaith a slyri. Bydd cyllid ar gyfer y gweithgareddau hyn ar gael yn y dyfodol o'r cynllun Grantiau Cynhyrchu Cynaliadwy.

Mae rheoli'r amgylchedd yn thema ganolog yn y Rhaglen Datblygu Gwledig sydd wedi'i chynnwys mewn ystod o amcanion strategol, gan gynnwys gwella ansawdd dŵr, lleihau llygredd, atal colled bioamrywiaeth, rheoli'r newid yn yr hinsawdd a gwarchod coedwigoedd a thirweddau a ffermir. Roedd 4,623 o gcontractau Glastir Sylfaenol wedi'u llofnodi hyd at 1 Ionawr 2015 a'r rheiny'n ymestyn dros ryw 560,424 hectar, gyda 198 o gcontractau dan Glastir – Tir Comin yn ymestyn dros ychydig yn llai na 121,000 hectar. Erbyn diwedd 2014 mae cyfanswm o 1,598 o gcontractau Glastir Uwch wedi cael eu llofnodi; mae cyfanswm gwerth y contractau hyn dros y cyfnod llawn o 5 mlynedd y bydd y contractau'n weithredol yn £212.43m. Mae 1,030 arall wedi mynegi diddordeb ar gyfer contractau Glastir Uwch a fydd yn dechrau yn 2016. Cafodd 99.75% o'r rhain eu cyflwyno trwy wasanaeth RPW Ar-lein Taliadau Gwledig Cymru.

O 1 Ionawr 2015, roedd 458 o gcontractau Glastir Organig wedi'u sefydlu, a'r rheiny'n werth cyfanswm o £18.14m. Erbyn 1 Ionawr 2015 roedd rhyw 263 o gcontractau Glastir – Rheoli Coetir wedi'u sefydlu, â gwerth contract o £9.26m. Cynigir ffenestr plannu coetir dan Glastir – Creu Coetir ar gyfer 2015 gan ddefnyddio'r map Cyfleodd Creu Coetir newydd.

Trwy Gynllun y Taliad Sengl, prosesodd Taliadau Gwledig Cymru daliadau i 90% o'r ymgeiswyr ar ddiwrnod cyntaf y cyfnod talu (1 Rhagfyr 2014). Ar y cyfan cafodd tuag 14,600 o geisiadau eu prosesau ar gyfer taliadau a oedd yn werth oddeutu £180 miliwn. Cyflawnwyd hyn ar yr un pryd â gwaith ychwanegol i baratoi ar gyfer Cynllun Taliad Sylfaenol newydd sy'n disodli Cynllun y Taliad Sengl o 2015. Yn 2014, dewisodd 32% o ymgeiswyr a gyflwynodd Ffurflen y Cais Sengl (5,569) gwblhau a chyflwyno eu ffurflen ar-lein. Roedd cefnogaeth a chymeradwyaeth gyhoeddus gan randdeiliaid dylanwadol o fewn y diwydiant ffermio yn allweddol i'r llwyddiant hwn.

Rhaglen Waith 2015

Mae gwaith datblygu polisi pellach yn cael ei wneud ar fanylion y trefniadau newydd ar gyfer Cynllun y Taliad Sylfaenol yng ngoleuni canlyniad yr adolygiad barnwrol. Mae'r rhain yn cael eu paratoi mewn ymgynghoriad â chyrrff sy'n cynrychioli rhanddeiliaid a bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei gynnal yn eu cylch cyn eu cyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae Taliadau Gwledig Cymru yn dal i gynghori hawlyddion ynghylch trefniadau ar gyfer taliadau uniongyrchol o 2015.

Mae Llywodraeth Cymru mewn negodiadau gyda'r Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd ynghylch ei chynnig ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 ac mae cael cymeradwyaeth yn flaenoriaeth uchel. Rydym yn gobeithio cael cymeradwyaeth mewn egwyddor yn gynnar yn 2015, gyda chymeradwyaeth ffurfiol yn dilyn yn yr haf. Bydd gwaith gweithredu manwl yn adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod 2014 gyda'r nod o fod â rhaglen fyw o ganol 2015.

Yn 2015, bydd RPW Ar-lein yn parhau i ehangu gyda gwasanaeth yn cael ei ychwanegu i fynegi diddordeb yn Glastir – Coetir. Y nod yw y bydd 80% o'r

ymgeiswyr sy'n cyflwyno Ffurflen y Cais Sengl yn cyflwyno eu ffurflen ar-lein. Bydd hyn yn cael ei gyflawni trwy barhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol a mynd ati mewn modd effeithiol i hyrwyddo'r lluo o fanteision y mae ceisiadau ar-lein yn eu cynnig.

Y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC)

Ein nod yw sicrhau bod y cronfeydd sydd ar gael yng Nghymru yn cael y budd mwyaf posibl. Yn y dyfodol, rydym am weld buddsoddiad yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu cymunedau pysgota, arloesedd mewn meysydd fel diogelu'r amgylchedd, casglu data, ymchwil wyddonol, dyframaethu a rheoli gweithrediadau pysgota.

Adroddiad Blynyddol 2014

Mae'r PPC diwygiedig, a ddaeth i rym yn 2014, yn ymrwymiad statudol a osodwyd ar y DU fel Aelod-wladwriaeth ac mae'r cyfrifoldeb am ei gyflawni yng Nghymru wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Cyfrannodd Llywodraeth Cymru'n sylweddol i negodiadau'r DU ar ddiwygio'r PPC ac rydym eisoes wedi cyrraedd y garreg filltir gyntaf o ran newidiadau i'r modd y caiff cynnyrch pysgodfeydd ei farchnata (yn sgîl cyflwyno rheolau tynnach gan yr UE sy'n cynyddu atebolrwydd am farchnata daliadau gan y Cyrff Cynhyrchu Pysgod mawr). Bydd newidiadau pwysig eraill sy'n ofynnol gan y PPC newydd yn cael eu cyflwyno'n raddol dros y blynyddoedd nesaf, yn anad dim y gwaharddiad ar daflu pysgod yn ôl. Yn 2014 fe wnaethom alluogi'r Comisiwn i sefydlu'r fframwaith ar gyfer gweithredu'r rheolau ar gyfer pysgod eigionol (sy'n ymwneud â physgod megis penwaig a mecryll) yn 2015 fel rhan o fwy o reolaeth ranbarthol yn Nyfroedd Gogledd Orllewinol Môr yr Iwerydd. Fe wnaethom hefyd gychwyn trafodaethau am y rheolau gweithredu ar gyfer y gwaharddiad ar daflu pysgod dyfnforol yn ôl, sy'n ymwneud â physgod megis penfreision a chegdduon ac a fydd yn cael ei gyflwyno yn 2016.

Rydym hefyd wedi cyfrannu at y newidiadau sylfaenol y bydd angen eu gwneud i'r rhwydwaith cymhleth o reoliadau rheoli a thechnegol. Cafodd y cytundeb ynghylch cwtâu pysgod a chyfluoedd pysgota eraill ar gyfer 2015 ei lunio hefyd a hynny yn erbyn cefndir ein rhwymedigaethau dan Gyfarwydddeb Fframwaith y Strategaeth Forol i gydymffurfio â chynghor gwyddonol a chanllawiau ynghylch y Cynnych Cynaliadwy Mwyaf.

Prif ffocws ein gwaith gwyddonol oedd gweithredu ystod o raglenni casglu a monitro data i gael gwell dealltwriaeth am yr effeithiau y bydd y diwygiadau i'r PPC yn eu cael ar ein diwydiant. Roedd hyn yn cynnwys casglu data ac arsylwadau ar fwrdd ystod o longau pysgota, ynghyd ag arsylwadau mewn porthladdoedd i ystyried y logisteg a'r cyfleusterau y bydd eu hangen er mwyn i'r diwydiant gydymffurfio â'r rhwymedigaeth lanio.

Ym mis Mai 2014 cynigiodd y Comisiwn Ewropeaidd gyflwyno gwaharddiad llwyr ar yr holl weithgareddau pysgota gan ddefnyddio rhwydi drifft yn nyfroedd yr UE o 1 Ionawr 2015. Yng Nghymru, ceir nifer o bysgotwyr ar raddfa fach ar hyd glannau'r arfordir sy'n defnyddio rhwydi drifft ar raddfa fach i bysgota penwaig, draenogod y môr, hyrddiaid a rhywogaethau dyfnforol amrywiol eraill. Er ein bod yn agored i adolygu ein harferion nid ydym yn ystyried bod y defnydd o'r rhwydi hyn yn broblem yn nyfroedd arfordir Cymru.

Rydym wedi gweithio'n ddwys gyda Gweinyddiaethau Pysgodfeydd eraill y DU (y maent i gyd yn rhannu'n pryderon dwfn) i ddarparu'r ymateb priodol i'r Comisiwn ar y mater hwn. Yn ystod yr haf fe ysgrifennodd y Comisiwn at Aelod-wladwriaethau a oedd wedi mynegi gwrthwynebiad i ofyn am fanylion maint (economaidd a gofodol) y pysgodfeydd yn eu dyfroedd.

Wrth ddiffinio ein safbwynt rydym wedi cydweithio'n agos gyda Grŵp Pysgodfeydd y Glannau a Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru, sy'n cyngori ein Gweinidogion. Hefyd, rydym wedi gweithio gyda'r cymdeithasau pysgotwyr amrywiol yng Nghymru sydd wedi mynegi eu pryderon ynghylch y bygythiad i'w bywoliaeth.

Rhaglen Waith 2015

Y blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2015 fydd gweithredu'r gwaharddiad ar daflu pysgod eigionol yn ôl a pharatoi'r fframwaith cyn 2016 ar gyfer cyflwyno'r gofynion mwy manwl o lawer o ran pysgod dyfnforol. Bydd angen inni gydweithio'n agos gyda Gweinyddiaethau eraill y DU, Cyngor Cynghorol Dyfroedd y Gogledd Orllewin, y Comisiwn Ewropeaidd a'n diwydiant ni ein hunain i sefydlu'r gyfundrefn gywir. Bydd rhai rhanddirymiadau de minimis ar gael a bydd angen inni ganfod a yw esemptiadau rhag yr amodau mwy llafurus yn gallu cael eu cymhwyso i'r pysgodfeydd arfordirol ar raddfa fach yng Nghymru. Bydd negodiadau manwl ynglŷn â gweithredu'r diwygiadau, yn enwedig ynglŷn â materion rheoli a mesurau technegol, yn parhau, gyda Llywodraeth Cymru yn cyflawni rôl weithredol.

Bydd gwaith gwyddonol eleni'n canolbwyntio unwaith eto ar baratoi ar gyfer y rhwymedigaeth i lanio pysgod dyfnforol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gychwyn rhaglen o waith casglu data dan arweiniad y diwydiant fel rhan o system gydreoli i wella ein dealltwriaeth am statws pysgodfeydd ein holl rywogaethau sy'n cael eu targedu'n fasnachol. Mae gwaith wedi cael ei gomisiynu i adolygu statws a'r opsiynau rheoli ar gyfer y prif rywogaethau sy'n cael eu dargedu'n fasnachol ac at ddibenion hamdden, i ddarparu sail dystiolaeth i danategu ein polisiâu rheoli.

Mae paratoi ar gyfer y rhwymedigaeth i lanio pysgod dyfnforol yn flaenoriaeth a bydd yr holl anghenion o ran data a thystiolaeth ar sail ranbarthol yn cael eu coladu a byddant ar gael i'r holl Aelod-wladwriaethau. Rydym yn ymgysylltu'n weithredol â hyn ac yn cyfrannu iddo, a byddwn yn defnyddio amrywiaeth o ddata a thystiolaeth i'n galluogi i ymgeisio am esemptiadau i'r rhwymedigaeth lanio.

Rydym hefyd yn disgwyl dechrau ystyried ceisiadau am gyllid dan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) yn ystod 2015. Rydym yn bwriadu defnyddio arian o Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yng Nghymru i gefnogi'r broses o roi'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin newydd ar waith. Yn arbennig, rydym yn disgwyl canolbwyntio ar y tri phrif faes, sef Pysgodfeydd "Gwyrdd Effeithlon", Dyframaeth "Gwyrdd Effeithlon" a Chymunedau Pysgodfeydd – Datblygiadau Lleol a Arweinir gan y Gymuned, yn ogystal â defnyddio arian a neilltuir o fewn Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop ar gyfer casglu data a gwaith gorfodi.

Nid yw'r Comisiwn wedi ymateb eto i'r sylwadau a wnaed gan Aelod-wladwriaethau yn hydref 2014 ynghylch ei waharddiad arfaethedig ar bysgodfeydd rhwydi drifft. Rydym yn parhau i erfyn ar Senedd Ewrop i gefnogi'r galwadau o'r DU a chan y wasg am dynnu'r cynnig yn ôl. Ar lefel bolisi fe wnaethom roi ystyriaeth i gyflwyno

“mesurau wedi’u rhanbartholi” ond byddai’r adroddiad drafft gan rapporteur Pwyllgor y Senedd ar Bysgodfeydd yn dal i ganiatáu pennu llawer o amodau ar lefel yr UE gyfan. Rydym hefyd wedi gwrthod y syniad o ymestyn y gwaharddiad i offer pysgota eraill, sef rhwydi drysu a rhwydi triphlyg.

Datblygu Cynaliadwy

Byddwn yn sicrhau bod ymagwedd Llywodraeth Cymru a'r UE at ddatblygu cynaliadwy yn gyson. Byddwn yn ymgysylltu'n rhyngwladol er mwyn hyrwyddo gwerthoedd datblygu cynaliadwy a chydweithredu yn Ewrop a thu hwnt.

Adroddiad Blynyddol 2014

Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd dan Adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i hyrwyddo datblygu cynaliadwy wrth arfer eu swyddogaethau. Mae gan yr UE awdurdodaeth eang dros faterion a all effeithio ar ddatblygu cynaliadwy.

Cyflwynwyd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Gorffennaf 2014. Mae wedi'i fwriadu i wella trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus penodedig er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru.

Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus penodedig wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru trwy gyfrannu at gyrraedd set o “nodau llesiant”. Mae'r rhain wedi'u bwriadu i helpu Cymru i wneud cyfraniad cadarnhaol i'r agenda ryngwladol. Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus penodedig bennu a chyhoeddi “amcanion llesiant” a chymryd pob cam rhesymol i'w cyflawni. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid iddynt weithredu mewn ffyrdd sy'n gyson â'r “egwyddor datblygu cynaliadwy”.

Yn eu tystiolaeth i ymgynghoriad Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y Bil, datganodd Comisiwn Cenedlaethol UNESCO y Deyrnas Unedig fel a ganlyn:

“2015 has the potential to be a pivotal year for sustainable development for both Wales and the wider world as the Well-being of Future Generations Bill could come into force as the UN Sustainable Development Goals are adopted and the UNESCO Decade of Education for Sustainable Development comes to a close. By adopting this Bill, Wales can be seen as a prominent contributor to and example of the global sustainable development agenda.”

Rhaglen Waith 2015

Yn amodol ar gymeradwyaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru, bydd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn cael Cydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015. Yng ngoleuni perthnasedd Nodau Datblygu Cynaliadwy newydd y Cenhedloedd Unedig i'r nodau llesiant yn y Bil, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith manwl i fonitro, ac yn ystyried, safbwynt yr Undeb Ewropeaidd cyn yr uwchgynhadledd arbennig ar ddatblygu cynaliadwy yng Nghynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ym mis Medi 2015, lle mae disgwyl i'r nodau gael eu mabwysiadu. Bydd y gwaith hwn hefyd yn ystyried enghreifftiau o arfer da ar lefel yr UE lle y bo'n berthnasol.

Cyfleuster Cysylltu Ewrop: Trafnidiaeth, Ynni a Rhwydweithiau Telathrebu

Mae ein cysylltedd ag Aelod-wladwriaethau eraill yn hollbwysig er mwyn manteisio ar gyfleoedd y Farchnad Sengl a chyflawni ein huchelgais o sicrhau twf cynaliadwy. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio datblygu potensial Cyfleuster Cysylltu Ewrop i gefnogi buddsoddiadau seilwaith mawr a chysylltedd rhyngwladol a bod o fudd i'r amgylchedd.

Adroddiad Blynyddol 2014

Mae Cyfleuster Cysylltu Ewrop wedi'i fwriadu i gefnogi'r broses o gysylltu'r cyfandir trwy brosiectau seilwaith trafndiaeth ac ynni ac mae'n cynnwys argaeledd cynyddol band eang cyflym a mynediad at seilweithiau gwasanaethau digidol fel congffeini Marchnad Sengl fodern.

Cwblhaodd Llywodraeth Cymru drafodaethau gydag Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) Llywodraeth y DU ynghylch y modd y caiff Rheoliad yr UE ar Ganllawiau ar gyfer Seilwaith Ynni Traws-Ewropeaidd (TEN-E) ei gyflwyno a'i weithredu'n ymarferol. Bwriedir ymdrin â chysylltiadau arfaethedig o dan y môr o Iwerddon i Gymru, i gysylltu prosiectau gwynt Iwerddon â rhwydwaith grid y DU, dan y Rheoliad hwn. Yn dilyn trafod, cytunodd Gweinidogion Cymru y bydd cyfrifoldebau Awdurdod Cymwys Cenedlaethol yn cael eu dirprwyo iddynt hwy gan Weinidogion Llywodraeth y DU. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn ymwneud â phum Prosiect o Ddiddordeb Cyffredin, y maent i gyd yn brosiectau rhyng-gysylltydd trydan rhwng Cymru ac Iwerddon.

Fe barhaodd Llywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill ar y fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer TEN-T (Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd) a Chyfleuster Cysylltu Ewrop (CEF) ar gyfer y cyfnod 2014-2020, gan amlygu pwysigrwydd strategol llwybrau a cheinciau trafndiaeth yng Nghymru i'r rhwydwaith, yn enwedig cysylltedd ag Iwerddon.

Mae buddsoddi mewn seilwaith telathrebu yn dal i fod yn un o'r prif flaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru Llywodraeth Cymru. Yn arbennig, un o'r ymrwymïadau allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu yw sicrhau bod gan gartrefi a busnesau yng Nghymru fynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf erbyn 2016.

Mae Llywodraeth Cymru a BT yn gweithio mewn partneriaeth trwy raglen Cyflymu Cymru i ddod â manteision band eang ffeibr i'r ardaloedd hynny sydd y tu allan i'r ôl troed masnachol arfaethedig yng Nghymru. Gyda chymorth ariannol gan yr UE, dyma'r buddsoddiad mwyaf o'i fath ar hyn o bryd yn y DU ac, o'i gyfuno a'r cynllun cyflwyno masnachol, mae'n sicrhau y gall 96% o safleoedd ledled Cymru gael band eang ffeibr cyflym. Mae'r rhaglen arloesol hon, sy'n werth miliynau o bunnoedd, yn cyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf ledled y wlad ac yn golygu mai Cymru fydd un o'r gwledydd mwyaf cysylltiedig yn y byd.

Bydd y rhaglen, a ariennir gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r UE, ynghyd â buddsoddiad cyffredinol BT yng Nghymru, yn golygu bod £425m yn cael ei fuddsoddi. Mae'r gwaith o'i chyflwyno wedi dechrau ym mhob un o'r 22 awdurdod

lleol yng Nghymru yn 2014/2015. Mae'r rhaglen yn mynd rhagddi'n dda a, hyd yma, mae bron i 300,000 o safleoedd wedi cael mynediad at fand eang ffeibr cyflym o ganlyniad. Bydd y buddsoddiad mawr hwn mewn seilwaith yn creu newid sylweddol yn seilwaith digidol Cymru a fydd yn tanategu strategaeth datblygu economaidd Llywodraeth Cymru yn yr hirdymor.

Rhaglen Waith 2015

Byddwn yn gweithio gyda datblygwyr a rhanddeiliaid i hwyluso cynnydd gyda phrosiectau cysylltu ynni yn unol â gofynion TEN-E. Byddwn yn adrodd ar gynnydd wrth yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, sy'n adrodd yn ôl yn ffurfiol wrth yr UE ar ran y DU.

Mae'r fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer y Rhwydwaith Trafnidiaeth Traws-Ewropeaidd a Chyfleuster Cysylltu Ewrop ar gyfer 2014-2020 wedi'i sefydlu, gan gynnwys y mapiau o'r rhwydweithiau trafndiaeth Craidd a Chynhwysfawr. Mae llwybrau a chyfleusterau trafndiaeth allweddol yng Nghymru wedi'u cynnwys ar y rhwydweithiau a byddwn yn parhau i weithio gydag Adran Drafndiaeth y DU ac i gynnal cyswllt â'r Comisiwn Ewropeaidd er mwyn helpu i gyflawni'r rhwydweithiau a chynyddu i'r eithaf y cyllid posibl dan Gyfleuster Cysylltu Ewrop a chyfleoedd buddsoddi eraill.

Bydd gwaith yn parhau ar gyflawni'r rhaglen Cyflymu Cymru. Hefyd, mae cyllid yr UE yn cael ei geisio i helpu busnesau ledled Cymru i fanteisio ar y cyfleoedd y mae band eang ffeibr cyflym yn eu cynnig. Mae cynlluniau ar gyfer rhaglen genedlaethol o gymorth Datblygu Band Eang Cyflym i Fusnesau yn mynd rhagddynt. Bydd y prosiect pum/chwe blynedd yn arwain at fanteisio ar seilwaith mewn ffordd economaidd fesuradwy trwy annog a chynorthwyo BBaChau i fanteisio ar y cyfleoedd a ddarperir gan fand eang cyflym iawn. Amcanion y prosiect yw:

- gwella dealltwriaeth busnesau am y budd sydd i'w gael o fanteisio ar fand eang cyflym iawn
- ysgogi busnesau i fabwysiadu band eang cyflym iawn
- sicrhau y manteisir ar dechnolegau cyflym iawn mewn ffordd economaidd fesuradwy i ddwyn budd i fusnesau

Mae cyllid pellach yn cael ei geisio ar gyfer y Prosiect Mewnlenni Band Eang Cyflym iawn i ddod â band eang ffeibr i ardaloedd nad ydynt wedi'u cynnwys yn y rhaglen Cyflymu Cymru na chan brosiectau cyflwyno cwmnïau telathrebu eu hunain.

Horizon 2020: Cymorth ar gyfer Ymchwil, Datblygu, Arloesedd a Gwyddoniaeth

Rydym ynghlwm wrth y gwaith i ddatblygu menter Horizon 2020 a byddwn yn gweithio i sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chynllunio i ategu'r Cronfeydd Strwythurol. Rydym yn ceisio symleiddio'r broses o wneud cais er mwyn lleihau'r baich ar BBaChau a chynigwyr eraill. Ein nod yw cynyddu cyfanswm yr arian a ddyfernir i waith ymchwil cystadleuol yng Nghymru yn sylweddol o'r lefel bresennol, sef tua 2% o gyfanswm y DU.

Adroddiad Blynyddol 2014

Roedd perfformiad Cymru yn rhagflaenydd Horizon 2020, y Seithfed Raglen Fframwaith (FP7 fel y'i gelwid) yn awgrymu bod lle i wella ond bod cryfderau y gellid adeiladu arnynt hefyd. Roedd data a ryddhawyd ym mis Hydref 2014 yn dangos bod gan Gymru 440 o gyfranogwyr yn FP7 (2.5% o ffigwr y DU) a oedd yn werth cyfanswm o €143m o arian yr UE (2.1% o ffigwr y DU). Mewn perthynas â'r DU, cafodd Cymru'r llwyddiant mwyaf yn thema Bwyd, Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Biotechnoleg (dros 5% o'r cyfranogwyr a 5% o'r cyllid). Cafodd Cymru dros €20 miliwn mewn tri maes hefyd: Iechyd, Cyngor Ymchwil Ewrop a Chamau Gweithredu Marie-Curie.

Mae data sydd ar gael gan y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch perfformiad Horizon 2020 yn 2014 (o fis Medi 2014) yn dangos bod 14 o gyfranogwyr o Gymru wedi'u dethol ar gyfer cyllid, a hwythau'n gofyn am €4.3m gan yr UE. Ar y cyfan roedd 126 o geisiadau gan sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, sy'n rhoi cyfradd lwyddo o 11%. Ymddengys fod hyn yn adlewyrchu'r gyfradd lwyddo yn fwy eang yn Horizon 2020 ar yr adeg hon.

Cafodd Astudiaeth Gwmpasu, a gomisiynodd Llywodraeth Cymru gan CM International i bennu sut orau y gallwn helpu sefydliadau yng Nghymru i gael mynediad at gyllid Horizon 2020, ei chyhoeddi ym mis Mehefin 2014. Roedd yr Astudiaeth yn cefnogi dull Uned Horizon 2020 yn WEFO o ran cydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru, y DU ac Ewrop i gynyddu i'r eithaf y cyfleoedd y mae Horizon 2020 yn eu cynnig i sefydliadau yng Nghymru. Mae'r dull cydgysylltiedig hwn yn sicrhau bod ymyriadau newydd yn ychwanegu gwerth yn hytrach nag yn dyblygu adnoddau presennol neu ddatblygol.

Roedd yr Astudiaeth Gwmpasu hefyd yn cydnabod rôl bwysig y cynllun SCoRE (Supporting Collaborative Research and Innovation in Europe) Cymru gan Lywodraeth Cymru o ran cynorthwyo sefydliadau yng Nghymru i gael mynediad at Horizon 2020. Mae'r gronfa'n darparu hyd at £1,000 ar gyfer ymgeiswyr i dalu am gostau teithio a hyd at £10,000 i dalu am gostau ysgrifennu cynigion. Ers cyflwyno'r cynllun, mae Uned Horizon 2020 wedi rhoi rhyw £105,000 i 30 o sefydliadau, gyda bron i 80% o'r cyllid hwnnw'n mynd i BBaChau yng Nghymru.

Roedd yr Astudiaeth yn gwneud sawl argymhelliad hefyd sy'n sail gadarn i benderfyniadau ynghylch ymyriadau pellach yn y strwythur cymorth yng Nghymru.

Mae camau gweithredu a gymerwyd i fynd i'r afael â'r argymhellion yn cynnwys:

- Cynnydd o £30,000 yng nghyllideb flynyddol y cynllun SCoRE Cymru gan Lywodraeth Cymru i £100,000 y flwyddyn, gan roi'r potensial i gynorthwyo 30 yn fwy o fusnesau ac ymchwilwyr yng Nghymru bob blwyddyn i gael mynediad at gyllid Horizon 2020.
- Ymrwymiad o ran arian ac adnoddau i weithio gyda rhanddeiliaid megis y sector addysg uwch yng Nghymru, Innovate UK a Rhwydwaith Menter Ewrop yng Nghymru i ddatblygu a darparu cyfres o ddigwyddiadau codi ymwybyddiaeth a digwyddiadau technegol wedi'u targedu yng Nghymru a Brwsel. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiad i gynnal digwyddiad Horizon 2020

blynyddol yng Nghymru, gan adeiladu ar lwyddiant y digwyddiad lansio ym mis Tachwedd 2013.

- Datblygu cynigion ar gyfer prosiectau posibl a fydd yn cynyddu i'r eithaf y synergeddau rhwng Cronfeydd Strwythurol yr UE a Horizon 2020 ac yn meithrin gallu ym maes ymchwil, er enghraifft trwy ddenu ymchwilwyr dawnus i Gymru.

Yn ystod 2014, rhoddodd Uned Horizon 2020 gyflwyniadau mewn 12 o ddigwyddiadau gwahanol, gan gyrraedd cynulleidfau darged o fwy na 300. Mae'r ymgysylltu hwn wedi arwain at nifer o ymholiadau ar gyfer cymorth gan SCoRE Cymru ac mae'r Uned hefyd wedi hwyluso trafodaethau pellach gyda'r sectorau cyhoeddus a phreifat ynghylch eu hymgysylltiad ag ystod o gyfleoedd i gael cyllid gan yr UE.

Rhaglen Waith 2015

Bydd ffocws cynyddol ar gynyddu i'r eithaf effaith ffrydiau cyllido'r UE, gan gynnwys trwy synergeddau rhwng Horizon 2020 a'r Cronfeydd Strwythurol, megis buddsoddiadau trwy'r Cronfeydd Strwythurol sy'n cefnogi gweithgarwch sy'n ategu meysydd a gyllidir trwy Horizon 2020 ('gweithgarwch diweddarach'), meithrin gallu i wella, manteisio ar ragoriaeth a'i rhannu ('gweithgarwch cynharach') a mynd i'r afael â rhwystrau i fynediad at Horizon 2020, megis mynediad at arbenigedd, cyllid neu hyfforddiant. Mae Uned Horizon 2020 Llywodraeth Cymru mewn trafodaethau manwl gyda rhanddeiliaid ynghylch buddsoddiadau posibl trwy'r Cronfeydd Strwythurol ym mhob un o'r tri maes yma a disgwylir nifer o gyhoeddiadau cysylltiedig yn 2015.

Mae Uned Horizon 2020 hefyd wrthi'n cynllunio nifer o gamau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion yn yr Astudiaeth o Horizon 2020 ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Datblygu a hyrwyddo 'rhwydwaith cymorth' i gysylltu adnoddau presennol a datblygol o fewn rhanddeiliaid ymchwil ac arloesi yng Nghymru a Brwsel i rannu gwybodaeth ac arfer gorau a hyrwyddo gwasanaeth cyson i sefydliadau yng Nghymru;
- Cyflwyno cymorth un-i-un gan arbenigwr ar gyfer busnesau yng Nghymru sydd â'u bryd ar archwilio potensial cyllid Horizon 2020;
- Y potensial i ddatblygu 'cymuned ymarfer' o arbenigwyr a gwerthuswyr Horizon 2020 yng Nghymru i gynyddu dylanwad Cymru ar ddatblygu a gweithredu'r rhaglen Horizon 2020 a darparu dealltwriaeth am y gymuned Horizon 2020 ehangach yng Nghymru.

Roedd y digwyddiad Horizon 2020 blynyddol cyntaf ym mis Chwefror yn gyfle i randdeiliaid glywed am y camau gweithredu arfaethedig a thrafod unrhyw wersi a ddysgwyd o flwyddyn gyntaf y rhaglen Horizon 2020.

Bydd Uned Horizon 2020 yn parhau i gynnig cyngor, a chymorth ariannol trwy SCoRE Cymru, i randdeiliaid yng Nghymru sydd â'u bryd ar ddatblygu a gwella eu cynigion i Horizon 2020.

Bydd Uned Horizon 2020 yn parhau i gydweithio'n agos gyda chydweithwyr polisi yn Llywodraeth Cymru a'r Prif Ymgynghorydd Gwyddonol i sicrhau bod gweithgareddau Horizon 2020 a buddsoddiadau trwy'r Cronfeydd Strwythurol yn cael eu cysoni'n

strategol. Bydd yr uned yn parhau hefyd â'r lefel uchel o ymgysylltu â'r sector Addysg Uwch. Yn yr un modd, bydd yr Uned yn parhau i adeiladu ar berthnasoddd gyda chysylltiadau yn Ewrop, gan gynnwys trwy Dŷ Cymru ym Mrwsel, a chyda rhwydwaith Horizon 2020 y DU, sy'n cynnwys Innovate UK, Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill.

Addysg, Sgiliau, Cyflogaeth a Chynhwysiant Cymdeithasol

Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at godi lefelau sgiliau er mwyn ysgogi cyfradd gyflogaeth uwch, yn enwedig swyddi crefftus sy'n denu cyflogau uwch. Mae'r amcan hwn, sy'n cyd-fynd â gweledigaeth yr UE yn Ewrop 2020, yn ceisio cael effaith gadarnhaol hirdymor ar gynhyrchiant, twf, incwm cartrefi a thlodi plant.

Adroddiad Blynyddol 2014

Mae Cymunedau 2.0, a gefnogir gan arian yr UE ac sy'n rhedeg tan fis Ebrill 2015, wedi helpu mwy na 55,000 o bobl i gaffael y sgiliau a'r galluedd i fynd ar-lein a chael eu cynnwys yn ddigidol, gan helpu i gynyddu eu cyflogadwyedd ac i leihau arwahanrwydd cymdeithasol, yn enwedig ymhlith pobl hŷn, pobl anabl, pobl ddi-waith a thenantiaid tai cymdeithasol. Mae'r rhaglen hefyd yn helpu mentrau cymdeithasol, microfusnesau a sefydliadau cymunedol a gwirfoddol i ddefnyddio TGCh i arloesi a gwella'r modd y maent yn darparu gwasanaethau.

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014, a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Gorffennaf 2014, yn cyfrannu at agenda Cynhwysiant Cymdeithasol Llywodraeth Cymru trwy helpu i sicrhau bod llai o aelwydydd yn profi trawma digartrefedd. Mae'r gwaith hwn yn ymateb i'r Argymhellion Gwlad-benodol y mae'r UE wedi'u cyflwyno i'r DU dros gyfnod o amser lle mae'n nodi anawsterau parhaus o ran ateb y galw am dai a nifer cynyddol y bobl sydd mewn perygl o dlodi neu allgáu cymdeithasol a'r heriau parhaus sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â'r gyfran o blant sydd mewn aelwydydd heb waith a thlodi plant.

Bydd y Ddeddf hefyd yn sicrhau bod mwy'n cael ei wneud i ddiwallu anghenion cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, trwy osod dyletswydd statudol newydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd newydd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr lle canfuwyd angen. Mae hyn yn gyson ag Adran 2.7 o Argymhelliad yr UE ynghylch mesurau effeithiol i integreiddio'r gymuned Roma.

Mae cronfeydd yr UE yn cyfrannu at gyflawni llawer o gynlluniau cyflogaeth a sgiliau gan Lywodraeth Cymru hefyd, megis Prentisiaethau, Twf Sgiliau Cymru a Twf Swyddi Cymru. Ar gyfer Twf Swyddi Cymru, hyd at 10 Rhagfyr 2014, roedd dros 16,500 o gyfleoedd swyddi wedi cael eu creu ledled Cymru ac o'r rhain, roedd 13,900 wedi cael eu llenwi, tra bo'r gweddill wedi cyrraedd camau amrywiol yn y broses recriwtio. Mae Twf Swyddi Cymru nid yn unig yn darparu cyfle gwerthfawr ar gyfer gyrfa, ond mae hefyd yn galluogi pobl ifanc i ennill y sgiliau hanfodol y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt ac yn helpu cwmnïau i dyfu. O dan Twf Swyddi Cymru, mae 83% o'r bobl ifanc sy'n gweithio yn y sector preifat wedi camu ymlaen i gyflogaeth neu ddysgu pellach ar ôl cwblhau'r rhaglen yn llwyddiannus, gan fynd y tu hwnt i'r targed cychwynol o 70%.

Mae buddsoddiadau'r UE yn cyfrannu at lwyddiant STEM Cymru – un o'r blaenoriaethau allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n annog pobl ifanc i astudio

Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianeg a Mathemateg. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud adduned i Gynghrair Prentisiaethau Ewrop (EAfA), a gydgyssylltir ar y cyd gan Gyfarwyddiaeth Gyffredinol Addysg a Diwylliant a Chyfarwyddiaeth Gyffredinol Cyflogaeth, Materion Cymdeithasol a Chynhwysiant y Comisiwn Ewropeaidd. Yn ei adduned, mae'r Llywodraeth wedi nodi'r mesurau y bydd yn eu cymryd i wella ansawdd prentisiaethau, cynyddu'r cyflenwad ohonynt a'u gwneud yn fwy deniadol.

Ymdrinnir â'r rhaglen Erasmus+ yn yr adran ar gysylltiadau addysgol a diwylliannol.

Rhaglen Waith 2015

Bydd Cynhwysiant Digidol yn dal i fod yn fater pwysig wrth i fwy o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus hollbwysig, symud ar-lein. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gyllido rhaglen cynhwysiant digidol newydd i olynu Cymunedau 2.0. Bydd y rhaglen hon yn adeiladu ar lwyddiant Cymunedau 2.0 a bydd yn helpu mwy o bobl i gael budd o ddefnyddio'r Rhyngwrdd. Bydd y rhaglen newydd yn ennyn ymgysylltiad sefydliadau partner ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn. Bydd hyn yn cynnwys prif-ffydio cynhwysiant digidol fel rhan o raglenni cyflogaeth a sgiliau a gefnogir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop. Mae'r gwaith hwn yn gyson ag amcan yr UE i hybu dysgu a sgiliau digidol ar draws cymdeithas. Bwriedir i'r rhannau o'r Ddeddf Tai (Cymru) sy'n ymwneud â Digartrefedd a Sipsiwn a Theithwyr ddechrau yng ngwanwyn 2015 gyda'r darpariaethau eraill yn cael eu gweithredu fesul cam wedi hynny.

Byddwn yn parhau i ddefnyddio arian o Gronfa Gymdeithasol Ewrop i gefnogi ein rhaglenni cyflogaeth a sgiliau llwyddiannus, gan gynnwys Twf Swyddi Cymru. Rydym yn gweithio gydag asiantau rheoli i sicrhau ein bod yn cynnig cymorth priodol i bobl ifanc yn ystod y rhaglen ac rydym yn gweithio gyda Gyrfa Cymru a Chanolfan Byd Gwaith i adnabod opsiynau posibl yn y dyfodol i bobl ifanc sydd wedi gadael y rhaglen yn gynnar. Rydym yn ymrwymedig i leihau lefelau diweithdra ymhlith pobl ifanc ac mae hyn yn dal i fod yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae Twf Swyddi Cymru yn un o'n hymatebion i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae'r Adran Addysg a Sgiliau yn y broses o ddatblygu cyfres o raglenni newydd i'w cyflwyno i WEFO dan Raglenni'r Cronfeydd Strwythurol ar gyfer 2014-2020. Mae hyn yn cynnwys cynllunio ar gyfer parhau â rhai o'r rhaglenni presennol a therfynu rhai eraill sy'n perthyn i Raglenni'r Cronfeydd Strwythurol ar gyfer 2007-2013.

Mae'r Adran Addysg a Sgiliau yn mabwysiadu dull strategol o weithredu ESF ar ôl 2014. Bydd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar ddarparu arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol ar lefel Cymru gyfan ac yn canolbwyntio'n llai ar gyflawni rhaglenni'n uniongyrchol. Gan hynny, disgwylir y bydd yr Adran Addysg a Sgiliau yn arwain ar lai o raglenni nag o dan gylch 2007-2013. Mae'r Adran Addysg a Sgiliau wedi llunio dull cyflawni integredig sy'n ymateb i angen a adnabuwyd ac a ddangoswyd yn glir ac sy'n gweithredu ar gyfuniad o lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae hyn yn digwydd trwy ennyn ymgysylltiad gweithredol gan randdeiliaid, sy'n helpu i siapia ffordd yr Adran Addysg a Sgiliau o feddwl a chasglu tystiolaeth i gefnogi'r dull.

Ynni

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i roi arweiniad ar ynni, cynyddu'r buddiannau economaidd a chymunedol a gweithredu ar unwaith i gynllunio'n strategol ar gyfer y dyfodol ynni hirdymor fel y nodir yn Ynni Cymru. Wrth wneud hynny, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth o fewn yr UE i geisio cyflawni ein dyheadau cyffredin o ran ynni.

Adroddiad Blynyddol 2014

Mae ein system ynni yn tanategu ein holl ffordd o fyw. Mae'r system honno'n mynd trwy newid mawr ar hyn o bryd wrth inni ei haddasu i gyflawni ystod o amcanion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol. Fe ailgadarnhaodd Cyngor Ewrop amcan yr Undeb Ewropeaidd i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 80-95% erbyn 2050 o'i gymharu â 1990, gydag effaith ddilynol ar gynyddu'r trydan carbon isel a gynhyrchir.

Cyhoeddwyd Cynllun Cyflawni Ynni Cymru ym mis Mawrth 2014. Mae'n adeiladu ar yr egwyddorion a nodir yn Ynni Cymru: Newid Carbon Isel, a datblygiad rhaglenni i gynyddu i'r eithaf fanteision economaidd a chymdeithasol y Cronfeydd Strwythurol i'r sector hwn. Mae'r Cynllun Cyflawni yn disgrifio ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ganolbwyntio a blaenoriaethu ein hymdrech mewn tri maes allweddol: rhoi arweiniad, yn enwedig o ran cynnig fframwaith ar gyfer buddsoddwyr; sicrhau cymaint â phosibl o fanteision i Gymru o safbwynt swyddi a'r economi ehangach; a gweithredu yn awr er budd dyfodol hirdymor Cymru trwy gefnogi arloesi ac ymchwil.

Mae effeithlonrwydd ynni yn dal i fod yn un o'r prif flaenoriaethau gyda'n cynllun effeithlonrwydd ynni ar lefel ardaloedd 'Arbed', a gefnogir gan arian yr UE, a'n cynllun tlodi tanwydd 'Nyth' yn helpu i leihau'r defnydd o ynni a lleihau tlodi tanwydd ledled Cymru. Mae buddion cymunedol sylweddol yn cael eu cyflawni gan y cynlluniau hyn hefyd. Ochr yn ochr â Nyth ac Arbed rydym hefyd wedi trefnu bod cyllid grant ar gael i awdurdodau lleol gyflawni eu cynlluniau effeithlonrwydd ynni lleol eu hunain i ysgogi buddsoddiad trwy'r Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni (ECO). Mae hyn yn cefnogi rhaglenni gwaith ehangach sy'n mynd i'r afael â chartrefi anodd eu trin, yn enwedig y rhai lle canfuwyd, er enghraifft, mai inswleiddio waliau allanol yw'r datrysiad gorau ond y datrysiad drutaf hefyd, gan olygu ei fod allan o gyrraedd pobl mewn tlodi tanwydd. Yn aml ni fyddai'r cartrefi hyn yn cael eu cyllido gan y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni yn unig.

Rydym hefyd wedi sefydlu'r gwasanaeth Cymru Effeithlon, sy'n dwyn ynghyd gymorth ar gyfer effeithlonrwydd ynni a oedd yn cael ei ddarparu'n flaenorol dan gyllid grant, gyda chymorth i ddefnyddio ynni, deunyddiau a dŵr yn fwy effeithlon, mewn un gwasanaeth integredig.

Mae cynhyrchu gwasgaredig yn dal i fod yn flaenoriaeth uchel ac ymwelodd aelodau o Bwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop (EESC) â Chymru rhwng 5 a 7 Mai i gynnal ymchwiliad i'r cynnydd gyda'r Gyfarwydddeb Ynni Adnewyddadwy. Roedd yr ymweliad yn cynnwys taith o amgylch prosiectau ynni adnewyddadwy a gwrandawriad gydag ystod eang o randdeiliaid. Mae cynllun Ynni'r Fro Llywodraeth Cymru, a gefnogir gan gyllid yr UE, wedi parhau i gynnig cymorth grant, benthyciadau a chynghor a gwybodaeth annibynnol am ddim i fentrau cymdeithasol. Mae deugain ag wyth o brosiectau naill ai'n cynhyrchu ynni ar hyn o bryd, wrthi'n

cael eu hadeiladu neu yng nghyfnodau olaf eu datblygiad o ganlyniad i gymorth gan y cynllun.

Gweithiodd Llywodraeth Cymru gydag Ystâd y Goron i adnabod dwy ardal profi ac arddangos ynni'r tonnau ac ynni'r llanw yn nyfroedd Cymru ac mae wedi gweithio'n helaeth gyda datblygwyr ynni gwynt i gynyddu i'r eithaf y buddion i fusnesau a chymunedau yng Nghymru. Rydym wedi datblygu cynllun cyffredinol ar gyfer datblygiadau ynni gwynt yng nghanolbarth Cymru, gan gynnwys dadansoddiad o anghenion y gweithlu a fydd, yn amodol ar gydsyniad i'r prosiectau ynni gwynt, yn arwain at gynllun hyfforddi a datblygu ar gyfer busnesau lleol.

Yn ystod 2014 fe wnaed cynnydd o ran datblygu Byw'n Glyfar Cymru, sef menter hirdymor i gyflwyno systemau clyfar, prosesau clyfar a thechnoleg glyfar i wella effeithlonrwydd adnoddau ynni. Yng ngwanwyn 2014 fe lansion ni Gofrestr Buddion Cymunedol ac Economaidd, sy'n rhoi gwybodaeth am y buddion sy'n deillio o gynlluniau ynni adnewyddadwy y cydsyniwyd iddynt ac sy'n weithredol yng Nghymru, ac sy'n dangos sut y mae'r buddion yn cael eu cyflawni.

Ym mis Mehefin 2014 fe gyhoeddodd ni Cynhyrchu Ynni Carbon Isel yng Nghymru: Astudiaeth llinell sylfaen o brosiectau ynni adnewyddadwy, sy'n darparu data sylfaenol hyd at ddiwedd 2012. Mae'n ymdrin â phrosiectau ar raddfa ddomestig a chymunedol, yn ogystal â datblygiadau mwy, ac yn dangos bod gennym 36,000 o brosiectau cynhyrchu ynni yn gweithio ar lawr gwlad yng Nghymru.

Sylwer: Tuag at ddiwedd 2014 cafodd y cyfrifoldeb am bolisi ynni ei rannu rhwng Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ar gyfer prosiectau ar raddfa fwy, a'r Adran Cyfoeth Naturiol, sy'n arwain ar brosiectau llai.

Rhaglen Waith 2015

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddatblygu'r gwasanaeth cyngor a chymorth cwbl integredig ar gyfer effeithlonrwydd adnoddau, sy'n gwasanaethu'r sectorau domestig, cyhoeddus a busnes. Rydym yn amcanu at ddangos effeithiolrwydd y model cyflawni, a sicrhau arian yr UE i gyflawni'r cynllun yn ehangach.

Rydym hefyd yn gweithio gyda'r sectorau ynni ar raddfa fach a chanolig i ddatblygu cynllun cymorth ynni adnewyddadwy i ddisodli Ynni'r Fro. Bydd y cynllun newydd yn ehangach o ran ei gwmpas nag Ynni'r Fro, a bydd yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth Cymru Effeithlon i annog cydberchnogaeth ar gynlluniau ynni adnewyddadwy sy'n cynhyrchu trydan a gwres a'r arfer o'u datblygu ar y cyd. Rydym yn disgwyl lansio cynllun newydd yn yr hydref.

Yn ystod 2015, byddwn yn datblygu'r Strategaeth Effeithlonrwydd Ynni ar gyfer Cymru. Mae hon yn canolbwyntio ar leihau tlodi tanwydd, lleihau carbon a hybu twf gwyrdd. Mae manteision sylweddol i'w cael hefyd o fuddsoddiadau ym maes effeithlonrwydd ynni a'r economi carbon isel yn sgîl rhaglenni newydd y Cronfeydd Strwythurol ar gyfer 2014-2020 a Horizon 2020.

Mae ynni'r môr yn flaenoriaeth fuddsoddi allweddol o dan Gronfeydd Strwythurol 2014-2020 hefyd, a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag Ystâd y Goron i hyrwyddo ardaloedd arddangos ar gyfer dyfeisiau morol a gweithio gyda

phartneriaid i ddefnyddio'r buddsoddiadau hyn gan yr UE ar gyfer sector ynni'r môr sydd wrthi'n datblygu yng Nghymru.

Mae hyn yn cynyddu costau i ddatblygwyr ac yn arafu'r broses gydsynio. Yn ystod 2015, mae Llywodraeth Cymru yn partneru gyda Llywodraeth yr Alban ac Ystâd y Goron i gydgyllido partneriaeth ar draws y DU gyfan ar gyfer ymchwil i ynni'r môr. Bydd y dystiolaeth a gesglir ar gael yn gyhoeddus a bydd yn lleihau risgiau a beichiau ar ddatblygwyr a chyrff rheoleiddio yng Nghymru, gan ei gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau amserol ynghylch ceisiadau. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r defnydd o ynni adnewyddadwy yng Nghymru hyd at ddiwedd 2014 trwy adrodd ar gynnydd yn erbyn data sylfaenol 2012.

Mae Cymru'n meddu ar fanteision sylweddol o ran ei gallu presennol i drosglwyddo trydan trwy'r grid cenedlaethol, ei hadnoddau naturiol a'i harbenigedd proffesiynol. Mae gwaith pwysig i ddatblygu seilwaith a chyfleusterau cynhyrchu ynni hefyd yn cynnig y potensial i greu cyflogaeth sylweddol ar gyfer y diwydiant adeiladau a'i gadwyni cyflenwi.

Er nad yw cost ynni'n fater sydd wedi'i ddatganoli, byddwn yn parhau i bwysleisio wrth Lywodraeth y DU ei bod yn bwysig bod unrhyw ostyngiad yng nghost cynhyrchu ynni'n cael ei drosglwyddo i ddefnyddwyr terfynol. Bydd gweithredu mesurau ynni-ffeithlon nid yn unig yn golygu bod busnesau yng Nghymru'n dal i fod yn gystadleuol mewn marchnadoedd byd-eang ond bydd hefyd yn darparu cyfleoedd i greu swyddi, twf a chyfoeth. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda diwydiannau ynni-ddwys i adnabod a rhoi cymorth i weithredu mesurau i leihau allyriadau carbon a chostau. Rydym yn parhau i fonitro effeithiau posibl polisi'r UE a'r DU ynghylch cystadleurwydd rhyngwladol busnesau ynni-ddwys.

Ceir cyfleoedd sylweddol hefyd i wella cystadleurwydd BBaChau trwy fwy o effeithlonrwydd adnoddau y tu hwnt i'r defnydd o ynni yn unig, sydd hefyd yn gallu cael effeithiau amgylcheddol cadarnhaol. Gall defnydd mwy effeithlon o adnoddau helpu i hybu cynhyrchiant ac mae hynny yn ei dro'n helpu i gefnogi twf a swyddi.

Mae'r defnydd o ynni yng Nghymru bron i 30% yn uwch na'r cyfartaledd ledled Prydain Fawr (Data'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd 2011), sydd i'w briodoli i raddau helaeth i ddiwydiant ac sy'n adlewyrchu cyfran uwch o fusnesau mwy ynni-ddwys megis gweithgynhyrchu yng Nghymru.

Bydd y Llywodraeth yn ymgysylltu â'r Strategaeth Fframwaith ar gyfer Undeb Ynni, a gyhoeddwyd gan y Comisiwn ym mis Chwefror. Mae hwn yn gynnig hynod arwyddocaol o ystyried dibyniaeth yr UE ar ynni, yr angen am leihau carbon a fforddiadwyedd i ddinasyddion a busnesau. Er enghraifft, gallai grid ynni Ewropeaidd sydd wedi'i gysylltu'n briodol arbed hyd at €40 biliwn y flwyddyn i ddefnyddwyr.

Mae Morlyn Llanw arfaethedig Bae Abertawe yn gynllun £1bn sydd wedi'i fwriadu i gynhyrchu digon o drydan i gyflenwi mwy na 155,000 o gartrefi. Cafodd yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd adroddiad yr arolygiaeth gynllunio ar y cynllun ym mis Mawrth ac mae ganddi tan 10 Mehefin i wneud penderfyniad ynghylch caniatâd cynllunio.

Newid yn yr Hinsawdd

Bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i weithio i gefnogi gwaith ledled yr UE sy'n ychwanegu at ymrwymïadau rhyngwladol i leihau allyriadau, ac i gyflawni rhaglenni sy'n helpu i sicrhau ein bod yn rheoli canlyniadau newid yn yr hinsawdd yn effeithiol yn ystod y degawdau i ddod.

Adroddiad Blynyddol 2014

Cytunodd yr UE ar y fframwaith EU2030 newydd, sy'n adeiladu ar y fframwaith 2020 presennol trwy atgyfnerthu'r llwybr datgarboneiddio o fewn yr UE ymhellach. Mae hyn yn golygu bod trywydd eglur yn bodoli bellach ar gyfer datgarboneiddio, gyda thargedau interim allweddol ar gyfer 2020 a 2030 i roi arweiniad o ran cynllunio tuag at y nod o leihau allyriadau o leiaf 80% erbyn 2050 (islaw lefelau 1990).

Mae Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd yn egluro sut yr ydym yn gweithio'n rhyngwladol. Mae presenoldeb llywodraethau is-genedlaethol megis Cymru bellach yn cael ei gydnabod yn ffurfiol ar lefel ryngwladol – yn enwedig gan y Cenhedloedd Unedig a Banc y Byd – ac mae hyn yn gyfle mawr iawn i Gymru gyfrannu i negodiadau a chymau gweithredu rhyngwladol a dylanwadu arnynt trwy ein rhwydweithiau. Er enghraifft, roeddem yn bresennol yng Nghonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd yn 2014 lle cawsom y cyfle i hyrwyddo ein gwaith o ran gweithredu ar yr hinsawdd, twf gwyrdd ac arloesi carbon isel.

Mae cyllid yr UE hefyd yn cefnogi cynlluniau sy'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd a arweinir gan sectorau eraill, gan gynnwys addysg uwch. Er enghraifft, mae'r prosiect BEACON a gyllidir gan yr UE, sy'n brosiect ar y cyd rhwng Prifysgolion Aberystwyth, Bangor ac Abertawe, yn cynnig dewis arall yn lle tanwyddau ffosil trwy brofi'r ffordd fwyaf ynni-effeithlon o buro cnydau heblaw bwyd i greu ystod o gynhyrchion sy'n deillio o olew a glo ar hyn o bryd – popeth o danwydd ar gyfer ceir i ddeunydd pacio ar gyfer bwyd. Yn 2014, fe enillodd Wobr glodfawr RegioStars yr UE, sy'n dathlu arloesi ac arfer da ar draws Aelod-wladwriaethau'r UE..

Rhaglen Waith 2015

Mae'r newid yn yr hinsawdd yn debygol o gael mwy o sylw dros y flwyddyn nesaf yn y cyfnod tyngedfennol cyn cynhadledd dirnod – COP 21 ym Mharis, ym mis Rhagfyr 2015 – sy'n amcanu at gyflawni, am y tro cyntaf mewn dros 20 mlynedd o negodiadau o fewn y Cenhedloedd Unedig, cytundeb byd-eang cyffredinol a chyfreithol-rwymol ar y newid yn yr hinsawdd. Mae cytundeb o'r fath yn hollbwysig i unrhyw obaith o aros o fewn targed cytunedig y Cenhedloedd Unedig (a'r UE) i gyfyngu'r newid yn yr hinsawdd i ddwy radd, y gallai unrhyw gynnydd y tu hwnt iddo, yn ôl cyngor Panel Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd, fod yn fygythiad i ddynoliaeth ac arwain at newid anwrthdroadwy yn yr hinsawdd. Mae Panel y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd yn datgan bod cynhesu byd-eang eisoes yn cael effaith ar bob cyfandir ac ar draws y cefnforoedd, ac y bydd llygredd pellach o ganlyniad i nwyon sy'n trappio gwres yn cynyddu'r tebygolrwydd o effeithiau difrifol, treiddiol ac anwrthdroadwy i bobl ac ecosystemau.

Byddwn yn parhau i wneud ein rhan ar lefel ryngwladol a gweithio gyda phartneriaid, yn enwedig trwy Rwydwaith y Llywodraethau Rhanbarthol dros Ddatblygu

Cynaliadwy (nrg4SD) a Grŵp yr Hinsawdd. Mae Llywodraeth Cymru yn eistedd fel aelod ar Grwpiau Ynni'r Môr a Thwf Gwyrdd Grŵp yr Hinsawdd.

Mae'r UE wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac mae wedi mynnu bod yn rhaid i gamau gweithredu i liniaru effeithiau/ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd roi cyfrif am 20% o gyllid gan y prif raglenni cyllid Ewropeaidd. Gan hynny, mae rhaglenni cyllido'r UE ar gyfer 2014-2020 yng Nghymru yn rhoi cyfle sylweddol inni gefnogi buddsoddiadau a fydd yn mynd i'r afael â lleihau allyriadau ac ymaddasu ac yn helpu i feithrin cadernid a manteisio ar y cyfleoedd y mae twf gwyrdd yn eu cynnig i economi Cymru.

Yr Amgylchedd

Byddwn yn ymgysylltu â sefydliadau'r UE er mwyn sicrhau bod amgylchedd Cymru yn cael ei ystyried wrth ddatblygu polisiau a sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau amgylcheddol.

Adroddiad Blynyddol 2014

Ers 2007 rydym wedi rhedeg rhaglen amddiffynfeydd llifogydd ac arfordirol lwyddiannus gyda chymorth dros £40 miliwn o gyllid yr UE. Mae'r rhaglen yn cefnogi 41 o gynlluniau llifogydd ac arfordirol ledled Cymru, a'r rheiny'n lleihau'r risg o lifogydd i dros 8,000 o adeiladau, mwy nag a ragwelwyd yn wreiddiol.

Roedd nifer o fentrau allweddol a oedd yn gysylltiedig â'r UE yn ystod y flwyddyn:

- Cafodd Llywodraeth Cymru wahoddiad i roi cyflwyniad a chyfrannu mewn cyfarfod rhwng llywodraethau rhanbarthol Ewrop a oedd yn canolbwyntio ar adnabod cyfleoedd ar gyfer cydweithredu a dysgu mewn perthynas â dylunio a chyflawni datrysiadau sy'n seiliedig ar natur i gefnogi datblygu cynaliadwy a thwf economaidd cynaliadwy.
- Estynnodd Cyfarwyddiaeth Gyffredinol y Comisiwn Ewropeaidd dros yr Amgylchedd wahoddiad i Lywodraeth Cymru roi cyflwyniad mewn cynhadledd ar gyfer staff y Comisiwn ac Aelod-wladwriaethau'r UE ar ddull strategol newydd Cymru o weithredu cyfraith yr UE a diwygiadau deddfwriaethol a pholisi cysylltiedig. Cafodd ein dull o reoli adnoddau naturiol mewn ffordd integredig (er mwyn dwyn buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor) dderbyniad cadarnhaol gan y Comisiwn, gyda'r dull a'r egwyddorion yn helpu i oleuo'i gyfarwyddeb lorweddol ac adolygiad o'r gofynion gweithredu ar gyfer cyfraith bresennol yr UE.
- Wedyn gwahoddwyd Llywodraeth Cymru i ymuno â phrosiect traws-UE (a gychwynnwyd gan Lywodraethau'r DU a'r Iseldiroedd) sydd wedi'i fwriadu i sefydlu arfer da a chanllawiau newydd ar gyfer gweithredu cyfraith amgylcheddol yr UE.
- O ran Bil yr Amgylchedd gan Lywodraeth Cymru, cytunodd y Comisiwn i ystyried canfyddiadau prosiect mewn perthynas â'i raglen Addasrwydd a Pherfformiad Rheoleiddiol (REFIT) sydd wedi'i bwriadu i wneud cyfraith yr EU yn fwy syml ac i leihau costau rheoleiddiol.

Rhaglen Waith 2015

Mae'r Tîm Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol mewn trafodaethau gyda DEFRA a'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch cynnwys ein hymateb a'n gwaith parhaus yn dilyn y llifogydd arfordirol ym mis Rhagfyr 2013 a mis Ionawr 2014 fel enghraifft o arfer da a chydweithio. Rydym hefyd yn trafod y posibilrwydd o roi cyflwyniad i un o Weithgorau Llifogydd Ewrop yn ddiweddarach eleni.

Mae swyddogion y Comisiwn a Llywodraeth yr Iseldiroedd wedi cadarnhau y byddent yn croesawu trafodaethau pellach ar ddeddfwriaeth a pholisi newydd Cymru yn ddiweddarach eleni.

Iechyd

Rydym yn ymrwymedig i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a sefydliadau'r UE er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth iechyd yn adlewyrchu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) sy'n gynyddol wahanol yng Nghymru. Ar gyfer rhaglenni ariannu, byddwn yn cydweithio i hwyluso cynigion gan sefydliadau yn y maes iechyd yng Nghymru.

Adroddiad Blynyddol 2014

Arweiniodd Llywodraeth Cymru Brosiect Mentora Cymheiriaid Camddefnyddio Sylweddau wedi'i gyllido gan yr UE, a helpodd dros 11,000 o gyfranogwyr i ennill annibyniaeth economaidd trwy waith am dâl. Cadarnhaodd gwerthusiad o'r prosiect a gwblhawyd gan Brifysgol De Cymru fod 67% o'r buddiolwyr wedi cyflawni canlyniad cadarnhaol. Yn fwy cyffredinol mae nifer o sefydliadau GIG Cymru wedi llwyddo i ennill cyllid cystadleuol ar gyfer Ymchwil ac Arloesi fel partneriaid mewn prosiectau cydweithredol.

Mae Cymru wedi cael Statws Safle Cyfeirio 3 Seren (y sgôr uchaf posibl) gan y Bartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd ar Heneiddio Egnïol ac iach am y gwaith yr ydym wedi ei wneud i weithredu ein Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn. Mae hyn yn adeiladu ar y rhaglen 'Heneiddio'n Dda yng Nghymru'.

Fe wnaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol gynrychioli'r DU yn Uwchgynhadledd yr UE ar Glefydau Cronig ac fe gynhaliodd drafodaethau gyda Chomisiynydd Iechyd Ewrop a Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd. Rhoddodd anerchiad cyweirnod hefyd yng nghynhadledd Rhaglen Gweithredu ar y Cyd gan yr UE ar Anghydraddoldebau Iechyd, yr oedd Llywodraeth Cymru yn aelod gweithredol ohoni, gan siarad ochr yn ochr â'r Comisiynydd Iechyd a Chyfarwyddwr Sefydliad Iechyd y Byd yn Ewrop.

Rhaglen Waith 2015

Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i gynyddu gallu, cymhwysedd a chael mwy o lwyddiant mewn prosiectau cydweithredol rhyngwladol, ac yn parhau i archwilio ffrydiau cyllido'r UE, gan gynnwys trwy'r Cronfeydd Strwythurol a Horizon 2020, i helpu i gyflawni ein hamcanion.

Er mwyn canlyn arni â hyn, fe ymwelodd dau uwch swyddog o Adran Iechyd Llywodraeth Cymru â Brwsel ar gyfer cyfres o gyfarfodydd yn gynnar ym mis Mawrth gyda chynrychiolwyr o sefydliadau'r UE, Confederasiwn y GIG, rhwydweithiau

perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd ac o lywodraethau rhanbarthol neu genedlaethol a allai fod yn bartneriaid posibl yn y dyfodol yn ein tyb ni. Bydd Swyddfa'r UE, mewn partneriaeth gyda'r Adran a swyddfa Addysg Uwch Cymru ym Mrwsel, yn trefnu ymweliad pellach ar gyfer sector iechyd a gwyddorau bywyd Cymru yn gynnar yn yr haf, a fydd yn cynnwys o leiaf un o Lysgenhadon Cyllid yr UE.

Yng Nghymru, mae trafodaethau cynnar yn mynd rhagddynt i archwilio'r defnydd o Gronfeydd Strwythurol yr UE i gefnogi rhaglen arloesedd iechyd a chyfoeth ac i gryfhau ac ehangu'r rhaglen Cymru lach ar Waith. Mae un o'r blaenoriaethau buddsoddi'n ymwneud â threchu tlodi ac allgáu cymdeithasol a achoswyd gan afiechyd a diweithdra. Yn yr un modd, mae cyllid yn cael ei geisio hefyd i helpu i gyflawni'r Prosiect Mentora Cymheiriaid Di-Waith sy'n tynnu ar wersi a ddysgwyd o'r prosiect Camddefnyddio Sylweddau a grybwyllwyd uchod.

Ail enghraifft yw'r prosiect Cymorth mewn Gwaith arfaethedig, sy'n ceisio cyllid gan yr UE i helpu cyflogaion yn rhanbarth Gorllewin Cymru a'r Cymoedd sydd ar, neu mewn perygl o fod ar absenoldeb hirdymor oherwydd salwch i'w helpu i ddychwelyd i waith neu aros mewn gwaith. Yr amcanion allweddol yw:

- Lleihau nifer y bobl sy'n rhoi'r gorau i weithio oherwydd afiechyd
- Lleihau hyd cyfnodau o absenoldeb oherwydd salwch sy'n digwydd o ganlyniad i faterion iechyd cyffredin, yn bennaf problemau cyhyrsgerbydol ac iechyd meddwl
- Ymgysylltu â chyflogwyr sy'n BBaChau i wella polisïau o ran iechyd yn y gweithle
- Ymgysylltu â meddygon teulu a'u cefnogi mewn perthynas â materion gwaith ac iechyd.

Fel y nodir uchod, mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn chwarae rhan flaenllaw yn y Bartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd ar Heneiddio Egnïol ac lach (EIP-AHA) ac fe gynrychiolodd Cymru yn yr Uwchgynhadledd Ewropeaidd ar Arloesedd ar gyfer Heneiddio'n Egnïol ac lach ym mis Mawrth. Yn dilyn yr Uwchgynhadledd, cynhaliodd y Comisiynydd weithdy yn Nhŷ Cymru ym Mrwsel i hyrwyddo profiad Cymru. Ar ben hynny, mae cynnig Interreg i gefnogi ac ehangu'r Rhwydwaith o 32 Safle Cyfeirio EIP-AHA yn cael ei archwilio.

Mae swyddogion o'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac Adrannau eraill yn gweithio gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar y Gyfarwydddeb Oriau Gwaith a gyhoeddwyd gan y Comisiwn.

Cyflawni rhwymedigaethau'r UE

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu ac yn cymhwyso cyfraith yr UE yng Nghymru sy'n ymwneud â chyfrifoldebau a ddatganolwyd. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU, fel cynrychiolydd yr Aelod-wladwriaeth, i ddatblygu a gweithredu deddfwriaeth a delio ag unrhyw dor-cyfraith posibl.

Adroddiad Blynyddol 2014

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i ddatblygu a gweithredu deddfwriaeth Ewropeaidd, ar ein pen ein hunain ac ar y cyd â Llywodraeth y DU ei hun. Ym mis Medi 2014, fe drefnodd ac fe ddarparodd Llywodraeth Cymru hyfforddiant mewnol ar ddeddfwriaeth yr UE ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd y cwrs yn ymdrin â phob agwedd ar ddeddfwriaeth yr UE, o ddylanwadu ar bolisi i ymdrin ag achosion o drosi a thorri deddfwriaeth.

Trwy gydol 2014, gweithiodd Llywodraeth Cymru gydag Adrannau Llywodraeth y DU gan gynnwys Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), yr Adran Drafnidiaeth (DfT), yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (BIS), yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC), yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG) ac eraill ar negodi deddfwriaeth derfynol yr UE a gwaith dilynol i drosi deddfwriaeth mewn sawl maes polisi gwahanol ar y cyd.

Rhaglen Waith 2015

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda'n cymheiriaid yn Llywodraeth y DU i ymateb i'r Comisiwn Ewropeaidd mewn perthynas â Phrosiect Pilot ac achosion o dorri deddfwriaeth. Mae hon yn broses barhaus ac rydym yn chwarae rhan lawn ynddi er mwyn sicrhau bod y perygl o dorri deddfwriaeth yn cael ei gyfyngu ac os ceir achosion o dorri deddfwriaeth, byddwn yn parhau i weithio tuag at ganlyniad llwyddiannus.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a'r Comisiwn Ewropeaidd ar holl feysydd deddfwriaeth yr UE. Byddwn yn ceisio sicrhau bod deddfwriaeth yn cael ei throsi'n gywir ac yn brydlon yn unol â rheolau'r UE.

Codi proffil Cymru yn yr UE a hyrwyddo ymgysylltiad â'r UE yng Nghymru

Byddwn yn cyflwyno delwedd gadarnhaol o Gymru fel cenedl sy'n falch o'i diwylliant a'i chyflawniadau ac fel partner dynamig, brwdfrydig a blaengar.

Codi proffil Cymru drwy ragoriaeth a rhannu gwersi a ddysgwyd

Byddwn yn hyrwyddo camau i rannu arfer gorau o Gymru a byddwn yn codi ein proffil gyda'r UE drwy ein rhagoriaeth a'n harbenigedd.

Adroddiad Blynyddol 2014

Fe wnaeth Cymru gynnal ei hanes ardderchog o gyflawni'r Cronfeydd Strwythurol. Fel a grybwyllwyd uchod, fe enillodd y prosiect BEACON rhwng Prifysgolion Aberystwyth, Bangor ac Abertawe Wobr RegioStars, sy'n dathlu arloesi ac arfer da ar draws Aelod-wladwriaethau.

Roedd swyddogion o Lywodraeth Cymru, sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus ac academyddion o'r sector Addysg Uwch yn werthuswyr ar gyfer Horizon 2020 hefyd a llwyddodd Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru i gael grantiau Cyngor Ymchwil Ewrop o ganlyniad i'w hymchwil ragorol.

Rhaglen Waith 2015

Bydd swyddogion o'r Adran Addysg a Sgiliau yn parhau i gynrychioli'r DU ar ddau o chwe grŵp arbenigol yr UE ar addysg a hyfforddiant. Y grwpiau dylanwadol hyn yw'r prif fforymau i ddylanwadu ar bolisiau ar lefel yr UE ym maes addysg a hyfforddiant a'r rhaglen waith flynyddol ar gyfer Erasmus+.

Fe wnaeth yr Athro Judith Phillips a Sarah Rochira, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, annerch Uwchgynhadledd y Bartneriaeth Arloesedd Ewropeaidd ar Heneiddio'n Egniol, gan ddatblygu ymhellach ein proffil Ewropeaidd yn y maes hwn ac adeiladu ar ddysgu'r Statws clodfawr Safle Cyfeirio 3 Seren i Gymru.

Ym mis Mawrth, penodwyd yr Athro Kevin Morgan o Brifysgol Caerdydd yn ymgynghorydd arbennig i'r Comisiynydd Polisi Rhanbarthol a Threfol, Corina Crețu.

Mae Strategaeth a Chynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth leuenctid Llywodraeth Cymru wedi cael sylw fel enghraifft o arfer da mewn adroddiad gan y Comisiwn Ewropeaidd ar "Entrepreneurship Education: A road to Success".

Hyrwyddo Cymru ym Mrwsel

Byddwn yn parhau i godi proffil Cymru ym Mrwsel drwy ddigwyddiadau polisi a diwylliannol sy'n berthnasol i'n Rhaglen Lywodraethu a'n mentrau diwylliannol pwysig.

Adroddiad Blynyddol 2014

Ym mis Chwefror, fe gydlywyddodd Swyddfa UE Llywodraeth Cymru a Dirprwy Lysgennad y DU i'r UE, Shan Morgan, dderbyniad gyda Bryn Terfel, a berfformiodd ym Mrwsel y diwrnod canlynol. Denodd y digwyddiad bobl o sefydliadau'r UE, Pencadlys NATO (cyn yr Uwchgynhadledd yng Nghymru ym mis Medi), gan gynnwys nifer o Lysgenhadon, a chymunedau ehangach y celfyddydau a byd busnes.

Hefyd ym mis Chwefror fe lywyddodd swyddfa'r UE ymweliad deuddydd gan ymgynghorydd Prif Weinidog Cymru ar weithgareddau i nodi can mlynedd ers y Rhyfel Byd Cyntaf, yr Athro Syr Deian Hopkin, a ymwelodd â Langemark yn Fflandrys, safle'r gofeb (a oedd heb ei dadorchuddio eto) i Gymry a frwydrodd yn y rhyfel, ac fe gyfarfu hefyd ag ystod eang o gynrychiolwyr o sefydliadau Belgaid a Phrydeinig.

Ar thema llenyddiaeth, roedd Llywodraeth Cymru yn un o'r partneriaid yn Ffair Lyfrau Brwsel 2014, yr oedd y DU yn wlad letyol iddi, ac ar yr achlysur hwn yr awduron o Gymru a oedd yn bresennol oedd Patrick McGuinness a Sian Melangell Dafydd.

Llywyddwyd y derbyniad amser cinio ar Ddydd Gŵyl Dewi 2014 gan y Gweinidog Cyllid ar 6 Mawrth. Yn bresennol yn y digwyddiad roedd pobl o holl sefydliadau'r UE, Pencadlys NATO, y gymuned fusnes a Langemark ac roedd yn gyfle i arddangos bwyd a diod o Gymru a nodi Canmlwyddiant Geni Dylan Thomas.

Cefnogodd Llywodraeth Cymru stondin Cymru yn yr Expo Bwyd Môr Byd-eang ym mis Mai.

Ym mis Mehefin, fe lywyddodd Prif Weinidog Cymru, ar y cyd ag Ysgrifennydd Tramor y DU, dderbyniad i Weinidogion Tramor NATO a oedd ym Mrwsel ar gyfer cyfarfodydd ym Mhencadlys NATO. Traddododd Prif Weinidog Cymru, yr Ysgrifennydd Tramor ac Ysgrifennydd Cyffredinol NATO areithiau am Gymru ac Uwchgynhadledd NATO a oedd ar ddod.

Ym mis Awst fe ymwelodd Prif Weinidog Cymru â Gwlad Belg eto ar gyfer seremoni i ddadorchuddio'r gofeb yn Langemark, Fflandrys, i'r Cymry a frwydrodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Fe ymunodd Gweinidog-Lywydd Fflandrys â'r Prif Weinidog yn y seremoni ddadorchuddio.

Cymerodd Swyddfa'r UE ran hefyd mewn gweithgareddau i goffau Cyffinwyr De Cymru a'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn Fflandrys gan nodi can mlynedd ers brwydrau a ymladdwyd ym mis Hydref 1914.

Rhaglen Waith 2015

Trefnodd Swyddfa'r UE ym Mrwsel y derbyniad blynyddol ar Ddydd Gŵyl Dewi a oedd yn cynnwys ffocws ar hyrwyddo Campws Arloesi Prifysgol Abertawe, yn dilyn cinio Dydd Gŵyl Dewi gyda phenderfynwyr yn yr UE yr oedd y Brifysgol wedi'i drefnu'n gynharach y diwrnod hwnnw. Fel sy'n arferol bellach, roedd y digwyddiad hefyd yn gyfle i hyrwyddo bwyd a diod o safon uchel o Gymru.

Ym mis Mai, byddwn yn croesawu dirprwyaeth o'r gymuned ieuchyd a gwyddorau bywyd a fydd yn ymweld â Brwsel ar gyfer cyfres o gyfarfodydd ynghylch polisi a chyllid.

Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn trefnu digwyddiad polisi yn Senedd Ewrop ym mis Mehefin a fydd yn canolbwyntio ar ddiweithdra ieuencid ac, yn hwyrach yn y flwyddyn, gweithdy ar gydweithredu tiriogaethol ymhlith rhanbarthau'r UE.

Bydd y cyfryngau cymdeithasol yn chwarae rhan fwy yn 2015 wrth hyrwyddo Cymru a gwybodaeth am yr UE ac mae'r cyfrif Twitter @WalesinEU yn darparu llwyfan ar gyfer hyn.

Hyrwyddo Cymru drwy dwristiaeth a chysylltiadau trafnidiaeth

Rydym yn ymrwymedig i hyrwyddo Cymru fel cyrchfan i dwristiaid ac yn gweithio i ddenu amrywiaeth ehangach ac amlach o wasanaethau awyr sy'n hedfan i mewn ac allan o Gymru.

Adroddiad Blynyddol 2014

Fe ddatblygon ni ddau gynnig ar gyfer Cronfeydd Strwythurol yr UE (2014-2020) a fyddai'n helpu i gyflawni'r uchelgeisiau yn strategaeth dwristiaeth Llywodraeth Cymru. Roedd y cynigion yn canolbwyntio ar ddarparu mynediad at gyllid ar gyfer y sector preifat er mwyn iddynt barhau i ddarparu cynhyrchion twristiaeth strategol newydd a gwell; a chyllid i gyflawni nifer fach o brosiectau seilwaith twristiaeth a all ddarparu cynhyrchion sy'n newid canfyddiad pobl.

Bu'r sector twristiaeth yn gweithio hefyd gyda chydweithwyr sy'n arwain ar y Rhaglen Datblygu Gwledig newydd a Rhaglen Iwerddon/Cymru i sicrhau bod unrhyw gyllid yn cael ei gysoni'n strategol i helpu i dyfu'r diwydiant twristiaeth.

Parhaodd Llywodraeth Cymru i weithio mewn partneriaeth gyda Maes Awyr Caerdydd i annog llwybrau awyr newydd ac fe hwylusodd y broses o ddarparu benthygiad masnachol ar gyfer y Maes Awyr.

Rhaglen Waith 2015

Bydd y Maes Awyr a Llywodraeth Cymru yn parhau i siarad gyda chwmnïau awyrennau â dyheadau ar gyfer 2015/2016 i weithredu hediadau pellter hir trwy bresenoldeb mewn cynadleddau gan gynnwys Arabian Travel Market a World Routes.

Cysylltiadau addysgol a diwylliannol

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sy'n deillio o raglenni'r UE ar ddysgu gydol oes, ieuenctid, diwylliant a'r diwydiannau creadigol gyda'r nod o gynyddu cyfranogaeth yng Nghymru.

Adroddiad Blynyddol 2014

Fe barhaodd Llywodraeth Cymru i fod yn rhan o'r amryw fyrddau a grwpiau cynghori Erasmus+ ac fe barhaodd i hysbysebu cyfleoedd gyda rhanddeiliaid. Parhaodd Gweinidogion i ymgysylltu ag Asiantaeth Genedlaethol y DU ar gyfer Erasmus+, gyda'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg yn cytuno i siarad mewn Seminar Sgiliau yn y Senedd.

Cynhaliodd y British Council ac Ecorys gyfres o weithdai ledled Cymru i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael trwy Erasmus+ ac i gefnogi darpar fuddiolwyr trwy broses ymgeisio 2015. Cafodd y rhain eu hysbysebu trwy gylchlythyr yr Adran Addysg a Sgiliau, 'Dysg'.

Cafodd y rhaglen Ewrop Greadigol, a grëwyd trwy uno'r Rhaglenni MEDIA a Diwylliant blaenorol yn un Rhaglen gyfun, ei lansio ym mis Ionawr 2014. Sefydlwyd partneriaeth Swyddfa Ewrop Greadigol yn y DU gyda phedair gwlad y DU, a honno'n cael ei chydgysylltu gan y British Council/Sefydliad Ffilmiau Prydain. Mae Llywodraeth Cymru'n rhedeg Swyddfa Ewrop Greadigol yn y DU Cymru, sy'n cynnwys Rheolwr MEDIA a Rheolwr Diwylliant rhan-amser newydd a ymunodd â Llywodraeth Cymru ar secondiad o Gyngor Celfyddydau Cymru.

Yn ystod 2014 bu Swyddfa Ewrop Greadigol yn y DU Cymru yn hyrwyddo'r rhaglen Ewrop Greadigol newydd trwy gyfarfodydd un-i-un gyda sefydliadau clyweledol a sefydliadau'r celfyddydau/diwylliannol yng Nghymru yn ogystal â rhaglen helaeth o ddigwyddiadau a oedd yn cynnwys; digwyddiad gyda phanel o gomisiynwyr gemau fideo, digwyddiad Fforwm Cynhyrchwyr ar Gymorth i Ffilmiau Prydeinig, Sioe Datblygu Gemau Cymru a chyflwyniadau yng Nghanolbarth, Gogledd a De Cymru. Hefyd, fe elwodd sefydliadau yng Nghymru o gyllid grant gwerth dros €240,000 trwy Ewrop Greadigol yn 2014.

Rhaglen Waith 2015

Bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn agor digwyddiad 'Cymru yn y Byd' a noddir gan y British Council yn y Senedd i amlygu ei waith yng Nghymru a'r cyfleoedd rhyngwladol sydd ar gael, gan gynnwys trwy Erasmus+.

Bydd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg yn siarad mewn cynhadledd Cysylltu Ysgolion yn Rhyngwladol yn haf 2015 sy'n cael ei llywyddu gan Gyngor Dinas Caerdydd, a fydd yn cyfleu gwybodaeth yn yr un modd ynghylch cyfleoedd, a hynny hefyd yn cynnwys Erasmus+.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo'r rhain ac yn parhau i ymgysylltu â'r Asiantaeth Genedlaethol trwy ei chynrychiolaeth ar y byrddau a grwpiau cynghori perthnasol.

Mae Swyddfa Ewrop Greadigol yn y DU Cymru yn cyfrannu i Weithgor parhaus gan y Comisiwn Ewropeaidd a sefydlwyd i archwilio'r cysyniad o chwarae teg o fewn yr israglen MEDIA, sy'n cynorthwyo diwydiannau ffilmiau a chlyweledol yr UE yn ariannol i ddatblygu, dosbarthu a hyrwyddo'u gwaith. Gan ein bod yn un o'r pum Aelod-wladwriaeth a ddynodwyd fel rhai â "chapasiti cynhyrchu uchel" mae ymgeiswyr o Gymru'n cael eu cosbi yn y broses sgorio ar gyfer yr israglen MEDIA.

Wrth edrych tua'r dyfodol, mae wedi cynllunio rhaglen o waith hyrwyddo yn 2015 a fydd yn cynnwys panel o bobl sy'n comisiynu drama, presenoldeb yng Ngŵyl y Gelli, digwyddiad sy'n canolbwyntio ar chwiliadau am bartneriaethau ar gyfer sefydliadau'r celfyddydau a diwylliant yng Nghymru a phanel o Gomisiynwyr Plant y DU.

Hyrwyddo ymgysylltiad â'r UE yng Nghymru

Byddwn yn parhau i weithio gydag eraill i godi ymwybyddiaeth o faterion yn ymwneud â'r UE yng Nghymru.

Adroddiad Blynyddol 2014

Fe drefnon ni gyfres o ddigwyddiadau fel rhan o'n hymrwymiad i annog cyfranogiad yn y broses o lunio polisiâu'r UE ac i godi ymwybyddiaeth gyffredinol o faterion yr UE.

Llywyddodd y Gweinidog Cyllid ymweliad gan y Comisiynydd Cyflogaeth, László Andor, ym mis Chwefror 2014, i weld â'i lygaid ei hun yr effaith y mae Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn ei chael ar helpu pobl i gael gwaith a hyfforddiant, gan gynnwys pobl ifanc.

Yn gynnar ym mis Mawrth, trefnodd Llywodraeth Cymru seminar, a agorwyd gan y Gweinidog Cyllid, ar Raglen Ddiwygio Genedlaethol 2014 ar y cyd â Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru.

Ym mis Ebrill a mis Tachwedd fe gynhalion ni ddigwyddiadau gyrfaoedd yr UE ar gyfer myfyrwyr ym Mhrifysgolion Abertawe ac Aberystwyth yn y drefn honno, a'r rheiny wedi'u bwriadu i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer gyrfaoedd yn sefydliadau'r UE.

Ym mis Medi cynhaliwyd digwyddiad blynyddol Ffug Gyngor y Gweinidogion. Mae'r Ffug Gyngor yn cynnwys myfyrwyr 16-18 oed o ysgolion a cholegau ledled Cymru ac un ysgol o un o Aelod-wladwriaethau eraill yr UE. Yn ystod y ddadl, mae pob un o'r ysgolion yn cynrychioli un o 28 Aelod-wladwriaeth yr UE gyda thimau o ddau fyfyrwr yn chwarae rôl Gweinidogion y Llywodraeth. Mae'r ysgol sy'n weddill yn cynrychioli'r

Comisiwn ac Ysgrifenyddiaeth y Cyngor. Mae'r myfyrwyr yn trafod ac yn pleidleisio ar faterion amserol sy'n effeithio ar yr UE.

Cymerodd myfyrwyr o Burgerschool yn Roeselare, Fflandrys, ran yn y digwyddiad a hwy oedd yn cynrychioli'r DU. Mewn blynyddoedd blaenorol mae ysgolion o ranbarthau a gwledydd eraill y mae gan Gymru gysylltiadau cryf â hwy wedi cymryd rhan, gan gynnwys Latfia, Catalonia, Llydaw a Silesia yng Ngwlad Pwyl. Cynhaliwyd y digwyddiad yn Siambr Hywel ac fe'i hagorwyd gan Brif Weinidog Cymru.

Rhaglen Waith 2015

Ym mis Ebrill byddwn yn trefnu seminar bwysig ar Swyddi, Twf a'r UE. Y nod fydd codi ymwybyddiaeth ymhlith busnesau, prifysgolion a'r cyhoedd ehangach yng Nghymru am Gynllun Buddsoddi Ewrop, a'r cyfleoedd y mae'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn eu cynnig i'r sector busnes.

Eto eleni byddwn yn trefnu Ffug Gyngor ym mis Medi a digwyddiad gyrfaedd yr UE ym Mhrifysgol Bangor yn yr hydref.

Dylanwadu ar waith llunio polisïau'r UE

Cymru a Llywodraeth y DU

Byddwn yn parhau i weithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig i ddylanwadu ar y polisïau a ddatblygir gan yr UE.

Adroddiad Blynyddol 2014

Parhaodd Gweinidogion Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU, a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill, ar faterion sy'n gysylltiedig â'r UE, yn ddwyochrog a thrwy Gyd-bwyllgor y Gweinidogion ar Ewrop (JMC(E)), sy'n cynnwys Gweinidogion o'r pedair gweinyddiaeth.

Mae ymgysylltu'n effeithiol â'r Undeb Ewropeaidd yn bwysig i Gymru. Yn ystod y flwyddyn cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol adroddiad ar Rôl Cymru yn y Broses o Wneud Penderfyniadau yn yr UE (y cyfeiriwyd ato'n gynharach), gan gynnwys ein rhyngweithiadau â Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill.

Bu swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n fynych â'u cydweithwyr yn y gweinyddiaethau eraill ar y meysydd polisi drwy gydol y flwyddyn. Gweithiodd swyddfa'r UE Llywodraeth Cymru yn agos gyda Chynrychiolaeth Barhaol y DU i'r UE a Swyddfeydd UE y Gweinyddiaethau Datganoledig eraill.

Mae'r Bartneriaeth Masnach a Buddsoddi Drawsiwerydd (TTIP), sy'n cael ei negodi ar hyn o bryd, wedi'i bwriadu i leihau'n sylweddol y gost i fusnesau sy'n deillio o wahaniaethau mewn rheoliadau a safonau rhwng yr UE ac UDA trwy ddarparu gwell cydnawsedd a chysondeb, gan gynnwys ar gyfer ceir, deunydd fferyllol a bwydydd wedi'u prosesu. Ar yr un pryd, y nod yw cynnal lefelau uchel o iechyd, diogelwch a threfniadau diogelu'r amgylchedd. O dan TTIP, dylai tariffiau masnach, sydd eisoes yn isel, gael eu dileu neu eu lleihau'n sylweddol a bydd mynediad gwell at

farchnadoedd ar gyfer cwmnïau yn y sector gwasanaethau a chyfleoedd mwy agored a thryloyw o ran cyfleoedd caffael gan lywodraethau.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan yn y grŵp trawslywodraethol sy'n datblygu safbwynt y DU ar TTIP. Mae Gweinidogion Cymru yn nodi'r datganiadau cryf gan y Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth y DU na fydd TTIP yn cael unrhyw effeithiau anffafriol ar y GIG yng Nghymru nac ar ryddid Gweinidogion Cymru i reoli'r gwasanaeth.

Cynhaliodd Llywodraeth y DU Adolygiad o Gydbwysedd y Cymwyseddau rhwng y DU a'r UE dros gyfnod o ddwy flynedd, a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2014. Diben cyffredinol yr adolygiad oedd ystyried pwerau'r UE a sut y maent yn cael eu defnyddio yn ymarferol dros ystod eang o feysydd polisi. Arweiniodd yr adolygiad at 32 o adroddiadau, a gyhoeddwyd mewn pedwar semester, neu gyfran ac fe esgorodd ar asesiad manwl o'r hyn y mae'r UE yn ei wneud a sut y mae'n effeithio ar y DU, yn seiliedig ar yr ymatebion i'r ceisiadau am dystiolaeth ar gyfer pob adroddiad. Ni wnaeth ystyried mater aelodaeth y DU o'r UE.

Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gyfraniad helaeth i'r adolygiad pwysig hwn, a hithau wedi ymateb i 23 o'r 32 adroddiad. Roedd yr adolygiad yn gyfle i amlygu'r manteision eglur y mae aelodaeth o'r UE yn eu dwyn i ddinasyddion, busnesau a chymunedau Cymru ar draws llawer o feysydd polisi.

Rhaglen Waith 2015

Bydd Gweinidogion Cymru a'u swyddogion yn parhau i ymgysylltu â Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig eraill, trwy'r mecanweithiau a sefydliadau a ddisgrifiwyd, i hybu buddiannau Cymru.

Cyngor yr Undeb Ewropeaidd

Bydd Gweinidogion Cymru yn cymryd rhan yng Nghyngor yr Undeb Ewropeaidd, fel rhan o ddirprwyaeth y DU, ar faterion sydd o ddiddordeb i Gymru ac yn ceisio dylanwadu ar ganlyniadau cadarnhaol.

Adroddiad Blynyddol 2014

Roedd Gweinidogion Cymru'n rhan o ddirprwyaeth y DU i gyfarfodydd gan Gyngor yr UE yn ystod camau pwysig negodiadau ynghylch pob polisi a oedd o ddiddordeb. Er enghraifft, aeth y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd ar y pryd i gyfarfodydd Cyngor yr Amgylchedd a'r Cyngor Amaethyddiaeth fel rhan o Ddirprwyaeth y DU, ac roedd y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd yn bresennol yn y Cyngor Amaethyddiaeth ym mis Medi.

Rhaglen Waith 2015

Roedd y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd yn bresennol yn y ddau Gyngor Amaethyddiaeth sydd eisoes wedi cael eu cynnal yn 2015. Bydd y Dirprwy Weinidog a Gweinidogion eraill yn ceisio bod yn bresennol yn y Cyngor hefyd pan fo eitem ar yr agenda sydd o ddiddordeb mawr i Gymru.

Senedd Ewrop

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n dda gydag ASEau Cymru a bydd yn parhau i wneud hynny er mwyn hyrwyddo buddiannau Cymru. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu ag ASEau eraill sy'n dylanwadu ar y meysydd sydd bwysicaf i ni.

Adroddiad Blynyddol 2014

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru lefel uchel o ymgysylltiad â'r Senedd. Fe wnaethom hefyd barhau i adnabod cyfleoedd i gynnal ymweliadau Gweinidogol. Un enghraifft o ymgysylltu cynnar oedd ymweliad y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd a Chyfarwyddwr Cyffredinol Dyfodol Cynaliadwy â'r Senedd yn Strasbourg, a gynhaliwyd ddechrau'r hydref. Mae'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth yn ymwelydd rheolaidd â Brwsel a lle'r oedd yn bosibl fe gyfarfu â'r ASEau o Gymru yn ystod ei hymweliadau. Mae swyddogion o swyddfa Brwsel yn cwrdd yn rheolaidd â'r ASEau a cheir cyfarfodydd bob dau fis rhwng cynorthwywyr ASEau a'r holl gynrychiolwyr sy'n gweithio yn Nhŷ Cymru.

Rhaglen Waith 2015

Bydd swyddogion o Lywodraeth Cymru yn parhau i gael trafodaethau rheolaidd gydag ASEau ar ystod eang o faterion gan gynnwys materion amgylcheddol, polisi rhanbarthol, cyfleoedd i gael cyllid a masnach mewn nwyddau amaethyddol. Ym mis Mehefin, bydd Derek Vaughan ASE yn llywyddu ac yn cadeirio'r digwyddiad gan Lywodraeth Cymru yn Senedd Ewrop ar gyflogaeth ieuencid a grybwyllwyd uchod.

Y Comisiwn Ewropeaidd

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynnal y cyswllt a'r ddeialog agos â'r Comisiwn drwy Swyddfa'r UE a thrwy swyddfa'r Comisiwn yng Nghaerdydd.

Adroddiad Blynyddol 2014

Llywyddodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ymweliad â Chymru gan y Comisiynydd László Andor ym mis Chwefror gan gwrdd ag ef eto yn y derbyniad Dydd Gŵyl Dewi ym mis Mawrth. Cyfarfu hefyd â'r Comisiynydd sy'n gyfrifol am Bolisi Rhanbarthol, Johannes Hahn, ym mis Mawrth a chyfarfu â'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol sy'n gyfrifol am Addysg i drafod y rhaglen Erasmus+. Yn yr un modd roedd y Gweinidog yn areithwraig gyweirnod yn Fforwm Cydlyniant y Comisiwn Ewropeaidd ym mis Medi lle cyfarfu hefyd ag uwch swyddogion y Comisiwn ar ymylon y Fforwm. Roedd digwyddiadau pellach yn 2014 ar y cyd â'r Comisiwn Ewropeaidd yn cynnwys presenoldeb y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol sy'n gyfrifol am Amaethyddiaeth yn Sioe Frenhinol Cymru.

Mae gan Lywodraeth Cymru gysylltiadau cryf â Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru sydd wedi'i lleoli yng Nghaerdydd. Prif Weinidog Cymru yw'r areithiwr cyweirnod yn Nerbyniad Blwyddyn Newydd y Comisiwn yng Nghaerdydd. Mae Swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru'n cefnogi nifer o ddigwyddiadau gan Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â'r UE ac yn darparu siaradwyr yn rheolaidd ar gyfer digwyddiadau megis Ffug Gyngor Ewrop blynyddol Llywodraeth Cymru ar gyfer disgyblion yng Nghaerdydd a chyfarfodydd amrywiol dan faner ein Fforwm Cymru ar Ewrop, a gynhelir ledled y wlad.

Rhaglen Waith 2015

Cyfarfu'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ag uwch swyddogion o'r Comisiwn Ewropeaidd yn ystod ei hymweliad â Brwsel i lywyddu'r derbyniad blynyddol ar Ddydd Gŵyl Dewi gan gael cyfarfodydd gyda'r Cyfarwyddwr Cyffredinol sy'n gyfrifol am bolisi rhanbarthol a chynrychiolwyr o swyddfeydd preifat Is-lywydd y Comisiwn Jyrki Katainen (Swyddi, Twf, Cystadleurwydd a Buddsoddi) a'r Comisiynydd Thyssen, sy'n gyfrifol am gyflogaeth a pholisi cymdeithasol. Ymwelodd Llysgenhadon Cyllid yr UE a dirprwyaeth o faes iechyd â Brwsel adeg y derbyniad Dydd Gŵyl Dewi gan gwrdd â nifer o swyddogion y Comisiwn o nifer o Gyfarwyddiaethau i drafod datblygiadau polisi a rhaglenni'r UE.

Bydd y Comisiynydd Amaethyddiaeth, Phil Hogan, yn ymweld â Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf.

Pwyllgor y Rhanbarthau, Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop, Cydberthnasau â rhanbarthau'r UE ac Aelod-wladwriaethau

Mae Llywodraeth Cymru yn eangfrydig ac yn ymrwymedig i gydweithio ag eraill ar brosiectau trawsghenedlaethol a rhynggranbarthol; a chydweithio ar gynigion polisi'r UE gan fod safbwyntiau ar y cyd yn dwyn mwy o ddylanwad.

Adroddiad Blynyddol 2014

Parhaodd Llywodraeth Cymru i fod yn aelod gweithredol iawn o'r Rhwydwaith er Hybu Amrywiaeth Ieithyddol, yr unig rwydwaith Ewropeaidd sy'n gweithredu o Gymru. Lansiodd y rhwydwaith ei drywydd ar gyfer ieithoedd Ewropeaidd yn yr hydref a datblygodd gynllun lobïo ar gyfer y Senedd a'r Comisiwn newydd.

O ganlyniad i ymweliad ymgynghorydd arbennig Prif Weinidog Cymru ar weithgareddau i nodi can mlynedd ers y Rhyfel Byd Cyntaf, yr Athro Syr Deian Hopkin, llywyddodd Llywodraeth Cymru ymweliad gan Bennaeth Gweinyddiaeth Materion Tramor Llywodraeth Fflandrys ym mis Mehefin i archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu'r berthynas rhwng Cymru a Fflandrys ymhellach.

Cafodd y dyraniadau ariannol ar gyfer rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd eu cadarnhau gan Lywodraeth y DU yn y gwanwyn, oherwydd yr angen i negodi'r rhaglenni hyn ag Aelod-wladwriaethau eraill. Chwaraeodd Cymru ran allweddol yn natblygiad y rhaglenni hyn, ac rydym yn disgwyl i'r manteision ariannol i Gymru fod o leiaf yr un fath â'r rhaglenni CTE presennol, sef tua £40 miliwn.

Cyflwynwyd Rhaglen Weithredol Iwerddon/Cymru i'r Comisiwn Ewropeaidd ganol mis Medi. Roedd y rhaglen yn cynnwys ffocws cryf ar Fôr Iwerddon, gyda thri chynnyg buddsoddi'n seiliedig ar arloesi, yr amgylchedd, ac adnoddau diwylliannol a naturiol.

Cafodd y digwyddiad ar gyflogaeth ieuenctid gan Fforwm Cymru ar Ewrop y cyfeirir ato yn yr adran ar hybu ymgysylltu â'r UE yng Nghymru ei gadeirio gan ddau aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau o'r Cynulliad Cenedlaethol, sef Mick Antoniw AC a Rhodri Glyn Thomas AC. Yn fwy cyffredinol, mae swyddfa'r UE hefyd yn cydweithio'n agos gyda chynrychiolaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ym Mrwsel i gefnogi gwaith aelodau Cymru ym Mhwyllgor y

Rhanbarthau. Hefyd, cefnogodd swyddogion Llywodraeth Cymru waith Tom Jones, un o aelodau Cymreig Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewrop, a drefnodd ymweliad â Chymru ar brosiectau ynni.

Rhaglen Waith 2015

Mae Llywodraeth Cymru yn dal i chwarae rhan weithredol yn y Rhwydwaith er Hybu Amrywiaeth Ieithyddol a bydd y Llywodraeth yn parhau i chwarae rhan weithredol mewn rhwydweithiau eraill, yn anad dim Cynhadledd Rhanbarthau Morol Ymylol Ewrop a'i Chomisiwn Bwa'r Iwerydd lle bydd yn cyfranogi yn y gweithgorau ar bolisi a thrafnidiaeth rhanbarthol. Mae'r Llywodraeth hefyd yn sylwedydd ar gyfer Menter Vanguard sy'n dwyn ynghyd dros ugain o ranbarthau Ewropeaidd ar arloesi mewn gweithgynhyrchu uwch. Byddwn hefyd yn archwilio'r cyfleoedd ar gyfer aelodaeth ar y cyd o ERRIN (Rhwydwaith Ymchwil ac Arloesi Rhanbarthau Ewrop) gyda phrifysgolion Cymru.

O ran addysg a sgiliau, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn sylwedydd ar rwydwaith rhanbarthol EARLALL ac yn aelod o Dasglu'r Ganolfan Polisiâu Ewropeaidd ar Gyflogaeth leuenctid a fydd yn cyhoeddi ei adroddiad yn yr haf.

Arbenigedd yr UE

Byddwn yn parhau i gefnogi secondiadau dethol ac ymlyniadau byrdymor i sefydliadau'r UE fel ffordd o ddatblygu arbenigedd a chodi proffil Cymru yn yr UE. Rydym hefyd yn ceisio annog camau i gynnwys cynrychiolwyr o Gymru, rhai o fewn y Llywodraeth a'r tu allan iddi, yng ngrwpiau arbenigol yr UE.

Adroddiad Blynyddol 2014

Yn 2014 cefnogodd Llywodraeth Cymru bum secondiad i sefydliadau Ewropeaidd: dau swyddog ar secondiad i'r Comisiwn Ewropeaidd, dau i Gynrychiolaeth Barhaol y DU i'r UE (UKRep) ac un i Gynrychiolaeth Barhaol Latfia yn barod ar gyfer Llywyddiaeth Latfia o'r UE. Mae'r holl swyddogion hyn wedi bod yn flaenllaw yn y gwaith o lunio polisiâu'r UE. Ar ben hynny, mae swyddog o Lywodraeth Cymru yn cynrychioli'r DU ar grŵp arbenigol yr UE ar Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol a gydgyssylltir gan y Comisiwn Ewropeaidd.

Yn olaf rydym yn cydweithio'n agos gyda'r rhwydwaith NRG4SD byd-eang i rannu arfer gorau ac i ddylanwadu ar y drafodaeth ac ar negodiadau rhyngwladol ynghylch datblygu cynaliadwy a'r newid yn yr hinsawdd – yn enwedig yng ngoleuni 21ain sesiwn Cynhadledd y Partion i Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar y Newid yn yr Hinsawdd ym Mharis ym mis Rhagfyr. Yn yr un modd, rydym yn cydweithio gyda'r Undeb Rhyngwladol dros Gadwraeth Natur ar gydweithio gyda rhanbarthau blaenllaw i hybu gwasanaethau ecosystemau a datrysiadau seiliedig ar natur o fewn strategaethau datblygu cynaliadwy rhanbarthol.

Rhaglen Waith 2015

Yn 2015 byddwn yn parhau i geisio swyddi priodol i swyddogion Llywodraeth Cymru mewn sefydliadau Ewropeaidd lle byddant yn datblygu gwybodaeth ac arbenigedd ac yn cyfrannu at lunio polisiâu. Hyd yma, mae swyddog o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar secondiad byr yng Nghyfarwyddiaeth Polisi Rhanbarthol y Comisiwn ac mae'r secondeion i Gynrychiolaeth Barhaol y DU i'r UE a

Chynrychiolaeth Barhaol Latfia yn dal yn eu swyddi. Hefyd bydd swyddog ar leoliad chwe mis yng Nghyfarwyddiaeth Ddiwylliant y Comisiwn Ewropeaidd.